# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 19 CHWEFROR 2025 am 2:00 y. p. | WEDNESDAY, 19 FEBRUARY 2025 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR , SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY ON ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, John Ifan Jones, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Alwen Watkin, Sonia Williams ***(Is-Gadeirydd/Vice-Chair***), Arfon Wyn

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Ieuan Williams

**LLAFUR CYMRU/ WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Douglas M. Fowlie ***(Cadeirydd/Chair)***, Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats*)*, R. Llewelyn Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

John Tierney (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Wenda Owen (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Gwag/Vacant (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

## R H A G L E N

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 16)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau a'r amseroedd canlynol –

- 15 Ionawr 2025 (bore)
- 15 Ionawr 2025 (prynhawn)

**3 GOSOD CYLLIDEB 2025/26 - CYNIGION TERFYNOL DRAFFT AR GYFER Y GYLLIDEB REFENIW** (Tudalennau 17 - 38)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**4 GOSOD CYLLIDEB 2025/26 - CYNIGION TERFYNOL DRAFFT AR GYFER Y GYLLIDEB GYFALAF** (Tudalennau 39 - 58)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**5 PANEL SGRIWTINI CYLLID**

Derbyn adroddiad llafar gan Gadeirydd y Panel.

**6 GRWP TASG A GORFFEN Y PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL AR EIDDO GWAG A DYRANIADAU Y GWASANAETHAU TAI - ADRODDIAD CYNNYDD** (Tudalennau 59 - 84)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

**7 BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 85 - 92)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ac yn rhithwir ar Zoom ar 15 Ionawr 2025 (Bore)

DRAFT

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Douglas Fowlie (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Sonia Williams (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Geraint Bebb, John Ifan Jones, R. Llewelyn Jones, Llio A. Owen, Keith Roberts, Alwen Watkin, Ieuan Williams, Arfon Wyn.

Aelod Cyfetholedig: Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig)

**Aelodau Portffolio**

Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd), Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai), Neville Evans (Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol), Dyfed Wyn Jones (Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd), Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg), Nicola Roberts (Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo).

**Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ac Aelodau Eraill y Cyngor (trwy wahoddiad)**

Y Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff Evans, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Gwilym O. Jones, Pip O'Neill, Derek Owen, Ken Taylor.

**WRTH LAW:**

Prif Weithredwr
Dirprwy Brif Weithredwr
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Dysgu, Sgiliau a Phobl Ifanc
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
Pennaeth Gwasanaethau Tai
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Pennaeth Democratiaeth (DS)
Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid
Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO)
Rheolwr Sgriwtini (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)
Swyddog Gweddarlledu (FT)

**YMDDIHEURIADAU:**

Y Cynghorwyr Aled M. Jones a Jackie Lewis, Wenda Owen (Yr Eglwys yng Nghymru), Gillian Thompson (Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Busnes

| | |
|---|---|
| | Corfforaethol a  Phrofiad y Cwsmer), y Cynghorwyr Glyn Haynes, Euryn Morris, Dylan Rees (gwahoddedigion) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Elin Allsopp (Swyddog Sgriwtini) |

---

## 1 DATGAN DIDDORDEBAU

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2 GOSOD CYLLIDEB 2025/26 – CYNIGION CYCHWYNNOL DRAFFT AR GYFER Y GYLLIDEB REFENIW

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini i'r Pwyllgor ei ystyried. Roedd yr adroddiad yn amlinellu cyd-destun y broses ar gyfer gosod Cyllideb 2025/26, ynghyd â materion allweddol a chwestiynau ar gyfer Sgriwtini, er mwyn arfarnu cynigion cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb refeniw. Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fyddai'n cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 21 Ionawr 2025 ac a oedd yn cynnwys y gyllideb refeniw dros dro ar gyfer 2025/26 ac ystyriaethau cysylltiedig, ynghlwm yn Atodiad 1.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Robin Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai, a nododd fod y setliad dros dro ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2024, yn well na'r disgwyl. Roedd cynnydd o £410.3m yn lefel cyffredinol y cyllid ar gyfer Cymru, sef cynnydd o 7.3% mewn termau arian parod. Roedd y setliad drafft yn darparu cynnydd o 3.59% ar gyfer Ynys Môn (0.7% yn is na chyfartaledd Cymru a'r 16$^{eg}$ cynnydd uchaf o blith y 22 awdurdod) ac mae'n gadael diffyg o £10.791m ar ôl cynnwys y prif newidiadau yn y gyllideb, yn unol ag adran 4 yn yr adroddiad ar y gyllideb, a chyn gwneud unrhyw newid i'r Dreth Gyngor. Er mwyn cau'r bwlch trwy godi'r Dreth Gyngor yn unig, byddai angen cynnydd o 20.6% yn y Dreth Gyngor, ond mae'r Pwyllgor Gwaith o'r farn nad yw hynny'n ddewis realistig a byddai defnyddio arian wrth gefn y Cyngor i gau'r bwlch yn gwagio'r cronfeydd. Ni ellir cwrdd â diffyg o'r maint hwn drwy wneud arbedion chwaith. Cynnig y Pwyllgor Gwaith, felly, yw y dylid defnyddio cyfuniad o arbedion cyllidebol, defnyddio arian wrth gefn a chynyddu'r Dreth Gyngor er mwyn cwrdd â'r diffyg.

Dywedodd y Cynghorydd Robin Williams, er bod y cynnydd yn y setliad i'w groesawu, nid yw'n ddigon i gwrdd â'r holl bwysau ar gyllideb y Cyngor. Costau Yswiriant Gwladol yw'r prif bwysau ar y gyllideb ac mae peth ansicrwydd ynglŷn â chyllid ychwanegol i gwrdd â'r costau hyn a'r amseru, ac mae'r galw am wasanaethau, yn enwedig yn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion lle mae'r galw gan gleientiaid yn gallu newid yn sylweddol, yn golygu ei bod yn bwysig i'r Cyngor fod yn ddarbodus wrth reoli cyllid ac nad yw'n gorymrwymo ei arian wrth gefn. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn awyddus i warchod y gyllideb ysgolion yn 2025/2026 gan iddi wynebu toriadau yng nghyllideb 2024/25, a chafodd y gyllideb hyfforddeion corfforaethol ei thorri hefyd a'r bwriad yw cadw'r premiwm ar dai gwag ac ail gartrefi ar ei lefel bresennol, sef 100%. Mae cynigion drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb, fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, yn cynnwys cynnydd o 9.5% yn y Dreth Gyngor (yn cynnwys ardoll y Gwasanaeth Tân o 0.65%), darparu arian ychwanegol i gwrdd â galw cynyddol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, amddiffyn cyllidebau ysgolion trwy ariannu cynnydd mewn costau yn llawn, defnyddio premiwm y Dreth Gyngor i gefnogi prynwyr tro cyntaf, darparu cyllid ychwanegol ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol er mwyn eu galluogi i gwrdd â chostau staff ychwanegol yn 2025/26, gostwng cyllidebau gwasanaeth a defnyddio £2m o gronfeydd y Cyngor i gydbwyso'r gyllideb. Cyflwynir canlyniadau'r ymgynghoriad

cyhoeddus i'r Pwyllgor Sgriwtini ym mis Chwefror, cyn i'r Pwyllgor Gwaith lunio ei gynigion terfynol ar gyfer y gyllideb a gyflwynir i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2025.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 at y misoedd o waith oedd wedi cael ei wneud i lunio'r gyllideb ddrafft sy'n bodloni gofynion statudol gan ei bod yn cael ei hariannu trwy'r prif ffynonellau sydd ar gael i'r Cyngor, sef y Grant Cynnal Refeniw, y Dreth Gyngor a defnyddio arian wrth gefn. Mae nifer o risgiau'n parhau i fod ynghlwm â'r gyllideb, fel y manylir arnynt yn adran 6 yn yr adroddiad, a bu'n rhaid gwneud rhagdybiaethau yn eu cylch er mwyn llunio'r gyllideb. Maent yn cynnwys costau staff, sy'n dod i gyfanswm o £100m o'r gyllideb, a dyfarniadau cyflog 2025/26 sydd eto i'w cytuno ar gyfer athrawon a staff nad ydynt yn athrawon. Er bod yr adroddiad yn nodi beth fyddai'r effaith ar y gyllideb refeniw o beidio â chynnwys amcangyfrif digon uchel ar gyfer cynnydd mewn tâl, mae'n bwysig hefyd nad yw'r Cyngor yn gorddarparu ar gyfer y costau hyn yn y gyllideb gan y byddai'n rhaid ariannu'r orddarpariaeth a byddai'n rhaid i drethdalwr ysgwyddo cost ddiangen. Y nod yw creu cyllideb sydd yn seiliedig ar ffeithiau ac amcangyfrifon rhesymol o gostau'r Cyngor, ond heb fod yn rhy geidwadol chwaith. Atgoffodd y Swyddog Adran 151 yr aelodau y byddai bil Treth Gyngor terfynol trethdalwyr Môn hefyd yn cynnwys treth Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a threth cynghorau tref/cymuned. Mae'r setliad ar gyfer 2025/26 yn golygu fod sefyllfa'r Cyngor yn well na'r rhagolygon gwreiddiol, ond mae ansicrwydd sylweddol yn parhau ynglŷn ag ariannu llywodraeth leol yng Nghymru yn 2026/27 a thu hwnt gan fod pwysau ar Lywodraeth San Steffan i leihau costau yn y sector cyhoeddus a gallai hynny olygu fod cynghorau'n wynebu gorfod torri eu cyllidebau a'u gwariant unwaith eto yn 2026/27. Y gobaith yw y bydd yr Adolygiad o Wariant yn y Gwanwyn yn taflu goleuni ar y mater ac y bydd y broses o ddyrannu arian yn newid hefyd er mwyn i gynghorau allu cynllunio'n well, gan gynnwys cyhoeddi'r setliad yn gynharach a rhoi arwydd o beth fydd y dyraniad mewn blynyddoedd i ddod.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y gwaith helaeth a wnaethpwyd ar gyllideb 2025/26 a nododd bod aelodau'r Pwyllgor Gwaith a swyddogion wedi ymrwymo cryn dipyn o amser i'r gwaith ers gwanwyn y llynedd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, a chynhaliwyd sesiynau briffio ar gyfer yr holl aelodau etholedig. Oherwydd nad oedd gwybodaeth bendant ar gael ar y pryd, bu'n rhaid cynnwys nifer o ragdybiaethau yn y gyllideb a gwelwyd yn ddiweddarach bod nifer ohonynt yn agos iawn i'w lle, a hynny oherwydd profiad ac arbenigedd broffesiynol y tîm Cyllid, staff arall y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith. Mae'r holl opsiynau wedi cael eu hystyried, gan gynnwys torri costau a pheidio â darparu rhai gwasanaethau, a chan gadw mewn cof fod gwahanol agweddau o'r hyn a ddarperir gan y Cyngor yn cael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi gan breswylwyr Ynys Môn.

Cyflwynodd y Cynghorydd Geraint Bebb, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Addysg, adroddiad ar ganlyniad cyfarfodydd y Panel ar 19 Rhagfyr 2024 a 9 Ionawr 2025 i ystyried y cynigion drafft cychwynnol ar gyfer cyllideb refeniw 2025/26. Ar ôl ystyried y dogfennau a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ac ymatebion yr Aelodau Portffolio/Swyddogion i'r materion a godwyd, penderfynodd y Panel gefnogi'r cynigion a'u hargymell, fel y'u cyflwynwyd, i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Y cynigion oedd -

- Cyllideb gychwynnol arfaethedig o £195.234m
- Gwneud arbedion o £699k yng nghyllidebau'r gwasanaethau
- Gwarchod y canlynol –
  - Cyllidebau Ysgolion a sicrhau fod ysgolion yn derbyn cynnydd sy'n cwrdd â'r cynnydd mewn costau
  - Cyllidebau'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ynghyd â darpariaeth i ariannu pwysau ychwanegol ar y gyllideb
  - Y gyllideb Hyfforddeion Corfforaethol (£340k)
- Bod y Gwasanaethau Oedolion yn rheoli'r galw o fewn y gyllideb bresennol (ar ôl

caniatáu ar gyfer chwyddiant)

- Peidio â gweithredu'r £400k o arbedion staff sy'n weddill o flwyddyn ariannol 2024/25
- Cynnig ffurfiol i gadw'r Premiwm Treth Gyngor ar Ail Gartrefi / Tai Gwag ar 100% a pharhau i ddefnyddio £1m o incwm y Premiwm i gynorthwyo pobl sy'n prynu eu cartref cyntaf.
- Rhyddhau £2m o falansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd a glustnodwyd er mwyn cydbwyso cyllideb refeniw 2025/26
- Cynnydd arfaethedig o 9.5% yn y Dreth Gyngor (8.85% o gynnydd yn y Dreth Gyngor ynghyd â 0.65% i gwrdd ag Ardoll Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru).

Codwyd y materion canlynol gan y pwyllgor yn ystod y drafodaeth a ddilynodd ar gynigion cychwynnol y gyllideb a derbyniwyd ymatebion gan yr Arweinydd, yr Aelodau Portffolio a'r Prif Weithredwr er mwyn darparu sicrwydd ac eglurhad –

- Sut y gellir cynllunio cyllidebau'r AALl a chyllidebau cyfalaf yn y dyfodol er mwyn cynyddu capasiti yng Nghanolfan Addysg y Bont, Llangefni.

  Hysbyswyd y pwyllgor bod y Gwasanaeth Addysg yn gweithio'n agos â'r adran Gyllid er mwyn sicrhau bod pob ysgol yn cael ei hariannu'n deg trwy'r fformiwla ariannu. Mae ffyrdd o gynyddu capasiti Canolfan Addysg y Bont er mwyn derbyn mwy o ddisgyblion yn cael eu hystyried, gan gynnwys adleoli uned, gan olygu y byddai'r dyraniad ariannol hefyd yn cynyddu. Mae'r AALl yn ymwybodol hefyd bod nifer o blant yn dymuno cael eu derbyn i Ganolfan Addysg y Bont, yn ogystal ag ysgolion prif lif sy'n darparu ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, ac mae'r AALl yn trafod gyda phenaethiaid a swyddogion i nodi darpariaeth amgen. Hysbyswyd y pwyllgor hefyd fod cydnabyddiaeth ar lefel genedlaethol i'r pwysau o fewn y system anghenion addysgol arbennig ac mae Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Portffolio wedi codi'r materion hyn mewn trafodaethau yn y Gymdeithas Llywodraeth Leol, mewn perthynas â'r angen i sicrhau buddsoddiad priodol yn y system er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol ddarparu'n unol â'r ddeddfwriaeth a sicrhau cynaliadwyedd y system yn y tymor hir. Mae hwn yn fater cymhleth a strategol sy'n effeithio ar fwy nag un ardal benodol neu awdurdod lleol. Ategodd yr Arweinydd y sylwadau hynny a chadarnhaodd fod y Pwyllgor Gwaith yn llwyr ymwybodol o'r pwysau ar Ganolfan Addysg y Bont, a phob ysgol, oherwydd cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol, a dyna'r rheswm am y cynnig i warchod cyllidebau ysgolion yn 2025/26.

- Oherwydd bod niferoedd disgyblion yn gostwng yn y sector cynradd a phwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd cadarnhaol sy'n gysylltiedig ag ysgolion bach, pa effaith fyddai model ddyrannu cyllid sy'n canolbwyntio ar niferoedd disgyblion yn ei gael ar ysgolion bach, gan y byddai ysgolion bach sydd â llai o ddysgwyr yn derbyn llai o gyllideb, er nad yw costau rhedeg ysgol, yn gyffredinol, yn cyd-fynd â niferoedd disgyblion.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y fformiwla yn dyrannu arian ar ddwy lefel, sef un i gwrdd â chost adeilad yr ysgol a'r llall i gwrdd â chost y dysgwyr yn yr ysgol. Mae'r gost fesul disgybl yn uwch mewn ysgol fach gan fod y costau sefydlog yn cael eu rhannu rhwng llai o ddisgyblion. Mae'r costau hynny'n cael eu cynnwys yn y gyllideb, ond wrth i niferoedd disgyblion ostwng, mae'n anoddach cynnal dosbarthiadau gan olygu fod mwy o ddosbarthiadau oedran cymysg mewn ysgolion bach. Er bod y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc a'r Aelod Portffolio ar gyfer Addysg yn cydnabod y pwysau ar ysgolion a'u bod yn gwerthfawrogi fod y gyllideb arfaethedig yn gwarchod ysgolion, nododd yr Arweinydd bod yr awdurdod cyfan o dan anfantais oherwydd y fformiwla ariannu genedlaethol a'i fod, fel cyngor gwledig llai sydd â demograffeg hŷn, wedi derbyn setliad is na'r cyfartaledd gan fod y data a ddefnyddir i

benderfynu ar y dyraniad yn cynnwys y boblogaeth; mae hyn yn ei dro yn effeithio ar beth all y Cyngor ei ariannu.

- Gan fod Llywodraeth Cymru wedi darparu arian ychwanegol i lywodraeth leol yng Nghymru yn 2025/26, a chan fod Ynys Môn wedi derbyn setliad gwell na'r disgwyl, gofynnwyd pam fod angen cynnydd o 9.5% yn y Dreth Gyngor (gan gynnwys Ardoll y Gwasanaeth Tân) a mynegwyd pryderon y byddai'n anodd iawn i nifer o bobl ar yr ynys ymdopi â'r cynnydd, a hynny ar ben cynnydd yn y Dreth Gyngor mewn blynyddoedd blaenorol.

  Er bod y setliad yn well na'r hyn a gynlluniwyd cyn yr Etholiad Cyffredinol, esboniodd yr Arweinydd fod Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod, trwy Gymdeithas Lywodraeth Leol Cymru, y byddai angen setliad o 9% ar gynghorau yng Nghymru dim ond i gynnal gwasanaethau ar eu lefel bresennol, a hynny cyn cynnwys y cynnydd yn y cyflog byw cenedlaethol a newidiadau i'r Yswiriant Gwladol. Mae cyfran y Cyngor o'r gronfa ariannu wedi cynyddu gan 3.6% ac er bod y diffyg ariannol, cyn gwneud unrhyw addasiadau/ arbedion, yn gostwng i £10.791m, o gymharu ag amcangyfrif gwreiddiol o £18m, fel y nodir yn yr adroddiad, nid yw'n ddigon i gwrdd â'r holl bwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, a dyna pam fod angen defnyddio'r ffynonellau sydd ar gael i'r Cyngor i gau'r bwlch, trwy gynyddu'r Dreth Gyngor a thrwy defnyddio arian wrth gefn. Mae'r cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor yn uwch na chwyddiant oherwydd yr angen i gau'r bwlch cyllido ac mae hefyd yn gysylltiedig â chyfran y gyllideb sy'n cael ei ariannu gan y Dreth Gyngor a chan Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru (sef 30% a 70% yn ôl eu trefn).

- I ba raddau mae'r cynigion yn ymateb yn ddigonol i bwysau a heriau gwasanaeth a beth fydd effaith y mesurau arbed arian ar wasanaethau a'r ddarpariaeth yn 2025/26.

  Hysbyswyd y pwyllgor fod y galw am ofal cymdeithasol i blant wedi cynyddu, ynghyd â'r costau, ac yn ogystal â chynyddu'r gyllideb i gwrdd â chwyddiant mae angen cywiro'r gyllideb hefyd ac mae swm ychwanegol o £2.24m wedi'i gynnwys yn y gyllideb i'r perwyl hwnnw. Gall lleoliadau gofal plant greu costau sylweddol gan fod y galw'n fwy na'r ddarpariaeth a gallant fod yn anodd eu rheoli. Gan fod y sefyllfa yn y gwasanaethau Oedolion wedi sefydlogi, a chan fod cyllideb y gwasanaeth wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bwriedir peidio â dyrannu cyllid ychwanegol i'r gwasanaeth yn 2025/26, heblaw am gynnydd i gwrdd â chwyddiant a phwysau demograffeg a bydd disgwyl i'r gwasanaeth reoli'r galw oddi mewn i'r gyllideb bresennol. Mae cynnydd mewn digartrefedd yn rhoi pwysau ar gyllidebau'r Cyngor hefyd, ond mae'n cael ei reoli gan y Gwasanaethau Tai trwy gynnig darpariaeth arall, yn hytrach na llety gwely a brecwast costus. Mae arian grant yn cynorthwyo ysgolion i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ond nid yw'n ddigon i dalu costau staff. Hysbyswyd y pwyllgor hefyd bod arian cyfalaf dan bwysau gan nad yw'r arian wedi cynyddu yn unol â chostau ers nifer o flynyddoedd, gan olygu na fu'n bosib i'r Cyngor fuddsoddi'n ddigonol yn ei adeiladau a'i galedwedd TG, ac mae costau trwsio a chynnal a chadw wedi codi oherwydd hynny.

- A yw'r cynnydd o £3.122m yng nghyllideb y Gwasanaethau Plant, yn unol ag Atodiad 2 yn yr adroddiad, yn seiliedig ar ragdybiaethau neu dystiolaeth gadarn. Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynglŷn â gwarchod grwpiau bregus yn sgil y bwriad i resymoli gwasanaethau dydd ar gyfer cleientiaid ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu (£177k), beth fydd y goblygiadau i ganolfannau dydd, a Gweithdy Mona yn benodol, ac a ddylid gwneud darn penodol o waith sgriwtini cyn i'r cynnig gael ei gymeradwyo a'i roi ar waith.

  Hysbyswyd y pwyllgor bod rhaid seilio'r gyllideb ar amcangyfrifon a rhagdybiaethau oherwydd bod ansicrwydd ynghylch nifer o agweddau, megis dyfarniadau cyflog, y galw am wasanaethau, newidiadau demograffig a ffactorau economaidd ehangach mewn

perthynas â chwyddiant a chyfraddau llog. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio gan ddefnyddio cyllideb y flwyddyn flaenorol fel man cychwyn cyn ychwanegu unrhyw newidiadau sy'n hysbys, ac mae amcangyfrifon yn cael eu gwneud yn seiliedig ar brofiad a ffeithiau hanesyddol, gan olygu fod y gyllideb yn seiliedig ar ragdybiaethau gwybodus. Esboniodd y Swyddog Adran 151 y broses a chyfeiriodd at y gwahanol elfennau gofal cymdeithasol Plant sy'n cael eu hariannu e.e. darpariaeth ar yr ynys, gofal maeth mewnol ac annibynnol a lleoliadau tu allan i'r sir, y rhagdybiaethau a wnaethpwyd a'r newidiadau a all ddigwydd mewn perthynas â'r rhagdybiaethau hynny, yn enwedig mewn perthynas â nifer y plant sydd angen gofal, cymhlethdod yr achosion a'r costau sydd ynghlwm â nhw. Cadarnhawyd bod y cynnydd o £3.122m yng nghyllideb y Gwasanaethau Plant yn cynnwys cywiriad o £2.24m yn y gyllideb ar gyfer 2024/25 i adlewyrchu'r cynnydd mewn achosion a chynnydd mewn costau, £400k ar gyfer costau tâl, yn ogystal â thua £440k i gwrdd â chwyddiant. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol wrth y pwyllgor hefyd fod y gwasanaeth yn bwriadu cyflymu'r broses o ddarparu Cartrefi Clyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan fod deddfwriaeth i ddileu elw o ofal plant ar fin cael ei chyflwyno a allai effeithio ar nifer ac argaeledd lleoliadau gofal.

Mewn perthynas â'r bwriad i resymoli gwasanaethau dydd ar gyfer cleientiaid ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu, atgoffwyd y pwyllgor bod y Cynllun Strategol Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, a'i gefnogi ganddo, ym mis Tachwedd 2024, ac mae'n nodi camau cadarn i gwrdd â heriau gwasanaeth yn y dyfodol, gan gynnwys fforddiadwyedd ac addasrwydd, a thrawsnewid a moderneiddio elfennau o'r gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben yn y dyfodol, gan gynnwys parhau i roi'r pwyslais ar leoli gwasanaethau dydd mewn lleoliadau cymunedol, yn hytrach nac mewn adeiladau penodol, er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu gymryd rhan mewn gweithgareddau prif lif a'u cynnwys ym mywyd bob dydd yn eu cymunedau.

- Gofynnwyd cwestiynau am effeithiolrwydd mesurau ataliol o ran rheoli costau ac a yw'r targed o wneud arbedion trwy gynhyrchu £239,700 o incwm yn realistig ac yn gyraeddadwy.

  Er bod mesur buddion camau ataliol yn anodd, hysbyswyd y pwyllgor y byddai costau'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn sylweddol uwch oni bai am y rhaglenni ataliol ac ymyrraeth gynnar a ddarperir gan y gwasanaeth i helpu a chefnogi plant a'u teuluoedd er mwyn sicrhau nad yw eu hanghenion yn datblygu'n broblemau mwy difrifol. Cyfeiriwyd hefyd at y gefnogaeth a ddarperir i bobl sydd â dementia a nodwyd bod canolfan dementia'n cael ei chreu yng Nghlan Hwfa. Eglurodd y Swyddog Adran 151 bod y cynigion ar gyfer cynhyrchu incwm yn ymwneud yn bennaf â chynyddu'r ffi ar gyfer casglu gwastraff gardd, ac ni welwyd unrhyw effaith ar nifer y tanysgrifwyr yn sgil codi'r ffi y llynedd, ynghyd â gwella a moderneiddio prosesau casglu incwm yn y gwasanaeth Morwrol mewn ymateb i argymhellion adolygiad archwilio mewnol. Rhannodd y Penaethiaid Gwasanaeth fanylion ynglŷn ag oblygiadau'r cynigion a thynnwyd sylw hefyd at y ffi a godir ar gwmnïau cyfleustodau gan y Gwasanaeth Priffyrdd i gau ffyrdd er mwyn i'r cwmnïau hyn wneud gwaith yn gysylltiedig â chyfleustodau. Rhagwelir na fydd cymaint o gyfleoedd i gynyddu'r ffynhonnell incwm benodol hon ar ôl 2025/26.

- A yw'r Pwyllgor Gwaith yn bod yn rhy ofalus wrth gynnig cadw Premiwm y Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi / Tai Gwag ar 100%, a bod cyfle'n cael ei golli wrth beidio â chynyddu'r incwm er mwyn cynhyrchu adnoddau ychwanegol mewn cyfnod o gynni ariannol er mwyn cynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau tai dybryd mewn cymunedau ar yr ynys.

  Hysbyswyd y pwyllgor bod y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor wedi penderfynu cynyddu'r premiwm yn raddol er mwyn arfarnu effaith cynnydd yn y premiwm yn yr awdurdod hwn ac mewn awdurdodau cyfagos ar y niferoedd sy'n talu'r premiwm yn ardal yr awdurdod lleol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn argymell bod awdurdodau lleol yn ymgynghori

ynglŷn â chodi'r premiwm dros 100% ac y dylid cynnal yr ymgynghoriad o leiaf chwe mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r cynnydd yn ymwneud â hi, gan olygu nad oes digon o amser i'r Cyngor godi premiwm y Dreth Gyngor o fwy na 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Rhoddwyd sicrwydd bod lefel y premiwm ar dai gwag yn cael ei ystyried yn wyneb nifer y bobl sydd ar y gofrestr tai cymdeithasol, ond mae'r Pwyllgor Gwaith yn ymwybodol hefyd y gallai codi'r premiwm ar ail gartrefi olygu bod perchnogion ail gartrefi'n cofrestru eu heiddo ar gyfer trethi busnes, gan olygu bod y Cyngor yn colli'r premiwm a'r Dreth Gyngor.

- Gofynnwyd cwestiynau am arian ychwanegol i gynorthwyo gyda'r cynnydd yn yr Yswiriant Gwladol, yn ogystal â'r meysydd y byddai'r Pwyllgor Gwaith yn gwario mwy arnynt pe byddai'n derbyn mwy o arian, neu'r meysydd y byddai'n ystyried eu torri os na cheir arian ychwanegol.

  Hysbyswyd y pwyllgor bod swyddogion ar ddeall y byddai'r Trysorlys yn ariannu costau YG ychwanegol staff a gyflogir yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol, er nad oes cadarnhad o hynny eto. Byddai Llywodraeth Cymru'n derbyn arian trwy'r fformiwla Barnett, er bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r achos bod Cymru'n teilyngu mwy o arian nag a ddarperir trwy'r fformiwla. Mae cyllideb 2025/26 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer grant o £2m i Ynys Môn, er bod yr amcangyfrif o'r gost yn £2.25m, a bydd rhaid i'r Cyngor gwrdd ag unrhyw wahaniaeth o'r balansau cyffredinol. Bydd elfen o'r gost i'r trydydd sector a darparwyr yn cael ei gynnwys hefyd yn y ddarpariaeth ar gyfer Gwasanaethau Oedolion. Bu'r Cyngor hefyd yn pwyso ar Lywodraeth Cymru, trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i gynnwys cyllid gwaelodol yn y setliad terfynol er mwyn lleihau'r effaith ar gynghorau sy'n derbyn setliad is na chyfartaledd Cymru. Pe byddai cyllid gwaelodol yn cael ei gynnwys a bod yr awdurdod wedyn yn derbyn cyllid ychwanegol, byddai'r Pwyllgor Gwaith yn edrych ar yr adborth o'r ymgynghoriad fel rhan o'r broses, er mwyn gweld beth yw barn y cyhoedd am flaenoriaethau gwasanaeth.

- Risgiau defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb o ran gwytnwch a chynaliadwyedd tymor hir y Cyngor.

  Hysbyswyd y pwyllgor bod cyfraniad o arian wrth gefn y Cyngor yn ffordd o bontio rhan o'r diffyg ond mae'n golygu hefyd fod penderfyniadau anodd ynghylch gwariant parhaus yn cael eu gohirio i'r flwyddyn ganlynol. Gellir defnyddio arian wrth gefn hefyd i gwrdd ag unrhyw orwariant yn y gyllideb. Fel rheol gyffredinol, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi gosod isafswm o 5% o'r gyllideb refeniw net fel isafswm rhesymol ar gyfer y balansau cyffredinol er mwyn ymateb i'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor. Mae balansau cyffredinol y Cyngor yn iach ar hyn o bryd ac mae grantiau ychwanegol a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru, a nodir yn Nhabl 3 yn yr adroddiad, wedi helpu sefyllfa ariannol y Cyngor ac mae'n fod yr arian a neilltuwyd at ddibenion sydd bellach yn cael eu cyfarch gan y grantiau yn gallu cael ei ychwanegu at y balansau cyffredinol. Nid yw parhau i ddefnyddio arian wrth gefn yn gynaliadwy yn y tymor hir ac mae llai o gyfle i wneud hynny, gan olygu y bydd rhaid i'r Cyngor edrych ar sut mae'n rheoli ei gyllideb a sut mae'n darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau ei fod yn gweithredu o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo. Ni chyhoeddir setliad terfynol Llywodraeth Cymru tan fis Chwefror a gallai newid, ac yn ogystal â hynny, mae adolygiad gwariant Llywodraeth San Steffan ym mis Mawrth 2025 yn debygol o effeithio ar gyllideb 2026/27.

- Gofynnwyd am sicrwydd y byddai holiadur yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion drafft cyllideb 2025/26 yn fwy nag ymarfer ticio bocsys yn unig ac y byddai'n caniatáu i'r rheiny sy'n ymateb fynegi eu barn a bydd cyfleoedd hefyd i'r cyhoedd ymateb mewn ffyrdd eraill yn hytrach nag ar-lein yn unig. Gofynnwyd hefyd am gynnwys cwestiwn am ystod oedran yn yr holiadur, gan y byddai o gymorth i ddadansoddi sut mae'r gwahanol grwpiau oedran yn ymateb i'r ymgynghoriad, a chytunwyd i wneud hynny.

Er bod sicrwydd wedi'i roi, nodwyd nad oes fawr o fudd mewn derbyn nifer o wahanol safbwyntiau a bod angen elfen o barhad mewn perthynas â holiadur y llynedd er mwyn dadansoddi tueddiadau.

Yn dilyn trafodaeth, cynigiwyd y dylid cefnogi cynigion cychwynnol drafft ar gyfer y gyllideb, fel y cawsant eu cyflwyno ac ynghyd â'r elfennau a amlinellwyd gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid a Thai ac a gymeradwywyd gan y Panel Sgriwtini Cyllid, yn unol ag adroddiad Cadeirydd y Panel, ac y dylid eu hargymell i'r Pwyllgor Gwaith, ynghyd â gweithredoedd ychwanegol mewn perthynas â chraffu ymhellach ar y cynnig i resymoli gwasanaethau dydd ar gyfer cleientiaid ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu, yn benodol Gweithdy Mona, ac ychwanegu cwestiwn am ystod oedran ar holiadur yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Awgrymodd y Prif Weithredwr fod y cynnig yn y gyllideb i resymoli gwasanaethau dydd ar gyfer cleientiaid sydd ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu'n cael ei gynnwys fel eitem ar gyfer Sesiwn Friffio Aelodau. Yn dilyn hynny, cynigiwyd yr awgrym hwn fel gwelliant. Derbyniwyd y gwelliant ac yn y bleidlais a ddilynodd, derbyniwyd yr argymhelliad.

**Ar ôl craffu ar gynigion cychwynnol y Gyllideb Refeniw ddrafft ar gyfer 2025/26, ac ar ôl ystyried y materion a godwyd yn y trafodaethau a'r ymatebion a gafwyd gan y Swyddogion a'r Aelodau Portffolio, penderfynwyd cefnogi'r cynigion cychwynnol drafft ar gyfer Cyllideb Refeniw 2025/26, fel y'u cyflwynwyd, a'u hargymell i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion hynny, fel a ganlyn:**

- **Cyllideb gychwynnol arfaethedig o £195.234m**
- **Arbedion gwerth £699k o gyllidebau gwasanaeth**
- **Amddiffyn yr elfennau canlynol yn y gyllideb:**
    - **Cyllidebau ysgolion, gan sicrhau fod ysgolion yn derbyn cynnydd sy'n cwrdd â'r cynnydd mewn costau**
    - **Cyllidebau Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ynghyd â darpariaeth i ariannu pwysau ychwanegol ar y gyllideb**
    - **Y gyllideb Hyfforddeion Corfforaethol (£340k)**
- **Bod y Gwasanaethau Oedolion yn rheoli'r galw o fewn y gyllideb bresennol (ar ôl caniatáu am chwyddiant).**
- **Peidio â gweithredu'r £400k o arbedion staffio sy'n weddill o flwyddyn ariannol 2024/25.**
- **Gwneud cynnig ffurfiol i gadw Premiwm y Dreth Gyngor ar Ail Gartrefi / Tai Gwag ar 100% a pharhau i ddefnyddio £1m o'r incwm sy'n deillio o'r premiwm i gynorthwyo pobl sy'n prynu eu cartref cyntaf.**
- **Rhyddhau £2m o falansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd a glustnodwyd er mwyn cydbwyso cyllideb refeniw 2025/26.**
- **Cynnydd arfaethedig o 9.5% yn y Dreth Gyngor (8.85% o gynnydd yn y Dreth Gyngor ynghyd â 0.65% i gwrdd ag Ardoll Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru).**

**Gweithredoedd ychwanegol a gytunwyd –**

- **Bod y cynnig yn y gyllideb ynglŷn â rhesymoli gwasanaethau dydd ar gyfer cleientiaid ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu (£177k) yn cael ei gynnwys i'w drafod mewn Sesiwn Briffio Aelodau.**
- **Bod holiadur yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion cychwynnol y Cyngor ar gyfer cyllideb refeniw 2025/26 yn cynnwys cwestiwn am ystod oedran.**

*(Bu i'r Cynghorydd R. Llewelyn Jones atal ei bleidlais)*

### 3 ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Geraint Bebb, Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, adroddiad ar ganlyniadau dau gyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2024 a 9 Ionawr 2025 er mwyn ystyried y cynigion cychwynnol drafft ar gyfer Cyllideb Refeniw 2025/26, ac y cyfeirir ato yn y naratif ar gyfer eitem 2 uchod.

**Y Cynghorydd Douglas Fowlie**
**Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar Zoom ar 15 Ionawr, 2025 (Prynhawn)

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Douglas Fowlie (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Sonia Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, John Ifan Jones, R. Llewelyn Jones, Llio A. Owen, Keith Roberts, Alwen Watkin, Ieuan Williams, Arfon Wyn.<br><br>Aelod Cyfetholedig: Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig)<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd), Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid a Thai), Neville Evans (Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Phrofiad y Cwsmer), Dyfed Wyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd), Alun Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol), Dafydd Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a'r Iaith Gymraeg), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo). |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Pennaeth Democratiaeth (DS)<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid (CE) (ar gyfer eitem 3)<br>Rheolwr Cynllunio Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol (GP) (ar gyfer eitem 3)<br>Rheolwr Gweithredol (SOJ) (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Swyddog Gweddarlledu (FT) |
| **YMDDHEURIADAU**: | Cynghorwyr Aled M. Jones, Jackie Lewis, Wenda Owen (Yr Eglwys yng Nghymru), Gillian Thompson (Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd), (Mr Marc B. Hughes (Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Helen Kilgannon (Rheolwr Rhanbarthol – Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru), Jon Zalot (Swyddog Cynllunio at Argyfwng (ar gyfer eitem 4) |

---

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd, 2024, gan gadarnhau eu bod yn gofnod cywir a nodwyd y cynnydd yn erbyn y camau y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfod.

## 3 ADRODDIAD HUNAN-ASESIAD 2023/24 – DIWEDDARIAD AR GYNNYDD YN ERBYN Y CAMAU GWELLA A NODWYD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, oedd yn darparu diweddariad ar gynnydd wrth weithredu'r camau gwella a nodwyd yn yr Adroddiad Hunan-asesiad ar gyfer 2023/24, i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Gary Pritchard, Arweinydd y Cyngor, a gadarnhaodd mai dim ond dau allan o'r chwe maes a nodwyd fel mannau i'w gwella a'u monitro o fewn yr Adroddiad Hunan-asesiad Corfforaethol ar gyfer 2023/24 sydd ar ei hôl hi, gyda phob camau arall un ai wedi'i gwblhau neu ar ben ffordd. Mae'r amserlen ar gyfer cyhoeddi strategaeth rheoli asedau mân-ddaliadau erbyn Mawrth 2025 wedi llithro, ac argymhellwyd y dylid sefydlu grŵp tasg a gorffen trawsbleidiol er mwyn gwneud cynnydd â'r strategaeth, tra bo gwaith i ad-drefnu asedau'r cyngor yn parhau. Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu system rheoli cyfleusterau â gefnogir gan gyfrifiadur, rhoi prosesau ar gyfer adeiladau gwag/dros ben a gwarediadau ar waith, yn ogystal â datblygu set ddata cyflawn ar asedau er mwyn cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd am yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi strategaeth rheoli asedau mân-ddaliadau newydd, cynghorwyd y pwyllgor bod strategaeth ddrafft newydd wedi'i pharatoi i gymryd lle'r strategaeth honno oedd ar waith tan 2021, ond gohiriwyd y broses ddemocratig i'w chymeradwyo oherwydd etholiad llywodraeth leol yn 2022. Pe byddai'r grŵp tasg a gorffen y penderfynu cefnogi'r strategaeth ddrafft bresennol, pan fyd y grŵp yn weithredol, heb wneud unrhyw addasiadau sylweddol, mae'n bosibl y gellir cwblhau'r strategaeth o fewn ychydig fisoedd. Byddai'n rhaid trafod unrhyw newidiadau sylweddol neu newid trywydd/dull wrth wneud gwaith pellach, yn ogystal ag amserlen hirach. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y gofynnwyd i'r Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol gyflwyno enwebiadau ar gyfer aelodaeth y Grŵp Tasg a Gorffen.

Cyfeiriwyd at faes rhif chwech yn yr adroddiad diweddaru, sy'n nodi'r camau penodol i fynd i'r afael â'r heriau o ran cynllunio gweithlu. Gwnaed cais i gael diweddariad a throsolwg ar y sefyllfa gyffredinol bresennol o fewn y Cyngor mewn perthynas â recriwtio a chadw staff, ac a oes gan y Cyngor drefniadau unigol, neu ar y cyd â phartneriaid a sefydliadau addysgiadol lleol, er mwyn bodloni gofynion staffio yn y dyfodol.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod sefyllfa staffio'r Cyngor yn sefydlog ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor yn gallu denu a chadw staff da, ac mae'n darparu profiadau a datblygiad gyrfaol iddynt. Mae peth bryder ynghylch pwyntiau sengl o fethiannau o fewn y system, lle mae absenoldeb neu ddiffyg unigolion gydag arbenigedd a gwybodaeth benodol mewn maes arbennig yn achosi goblygiadau ehangach ar gyfer y Cyngor, o ran cynnal safon y gwasanaeth. Er bod Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o bwysigrwydd cynllunio gweithlu o fewn eu gwasanaethau, gall y Cyngor wneud mwy fel sefydliad i wella ei broffil fel cyflogwr ac amlygu'r hyn y gall ei gynnig i ddarpar weithwyr o ran hyblygrwydd gwaith, hyfforddiant, a chyfleoedd dilyniant. Mae cynllun strategol ar gyfer y gweithlu addysg gan Lywodraeth Cymru, sy'n bwriadu mynd i'r afael â'r heriau o fewn y sector addysg, yn cael ei adolygu, ac mae cynllun hyfforddai y Cyngor ei hun yn targedu meysydd ble mae bylchau, fydd yn sicrhau bod y Cyngor yn parhau'n sefydlog. Yn y dyfodol, efallai bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar rai o'r prif rolau o fewn y sefydliad, er mwyn sicrhau y gall ddenu'r doniau cywir mewn farchnad gystadleuol, lle disgwylir i bennaeth gwasanaeth arbenigo mewn sawl maes.

Cyfeiriodd y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid at nifer o gynlluniau o fewn y Cyngor i gefnogi'r gwaith o recriwtio, gan gynnwys y Rhaglen Denu Talent, sy'n cynnig profiadau i unigolion weithio yn y Cyngor. Mae wedi bod yn llwyddiannus iawn o fewn y Gwasanaethau Oedolion; argaeledd cyllid SCWWDP er mwyn helpu i ddatblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol a pherthynas gref y Cyngor gyda Phrifysgol Bangor o ran darparu'r cwrs MA mewn Gwaith Cymdeithasol. Cadarnhaodd y bydd y cynllun hyfforddiant corfforaethol yn canolbwyntio ar feysydd/swyddi o fewn y Cyngor lle mae bylchau amlwg, gan bwysleisio ar ddull 'meithrin eich talent eich hun'. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnig rhaglenni rheoli a datblygu arweinyddiaeth yn fewnol ar gyfer staff. Nododd bod cyfradd cadw staff y Cyngor yn 82%. Gwnaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol friffio'r pwyllgor ar fuddsoddiad y Cyngor mewn mesurau recriwtio a hyfforddi, a sut mae hynny wedi helpu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i sefydlogi'r gweithlu. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo mai recriwtio staff technegol yw'r her fwyaf o ran recriwtio i'r gwasanaeth. Er bod y dull 'meithrin eich talent eich hun' yn creu canlyniadau, mae risg y bydd pobl yn cael eu denu gan drefniadau gweithio hybrid a chyfleoedd â thâl uwch ym mhellach i ffwrdd.

Mewn ymateb i gwestiwn am yr heriau o ran recriwtio yn y sector addysg uwchradd, yn enwedig disgyblaethau gwyddoniaeth, dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr y bydd angen adolygu cynllun strategol y gweithlu addysg gan Lywodraeth Cymru, sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn, yn ofalus. Gwnaed ymdrechion cenedlaethol i wella proffil y proffesiwn addysgu, ac mae'r ymdrechion hynny'n parhau.

Dywedodd y Cynghorydd Gary Pritchard, Arweinydd y Cyngor, fod lleoliad gwaith cadarnahol yn ffactor allweddol ar gyfer cadw staff presennol, yn enwedig yn y Cyngor. Mae'r sesiwn anwytho ar gyfer staff newydd yn amlygu'r cyfleoedd dilyniant gyrfaol a dysgu a datblygu sydd ar gael yn y Cyngor, a bod cynllunio gweithlu yn ffurfio rhan o bob hunan-asesiad blynyddol gwasanaethau. Dywedodd bod heriau recriwtio yn amlwg yn y sector llywodraeth leol, yn enwedig mewn perthynas â swyddi arbenigol sy'n golygu mwy o gystadleuaeth i grŵp cyfyngedig o ymgeiswyr, sy'n pwysleisio pwysigrwydd hyrwyddo'r Cyngor fel cyflogwr.

**Penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi'r cynnydd yn erbyn y camau gwella a nodwyd yn yr Adroddiad Hunan-asesiad ar ôl craffu ar yr adroddiad diweddaru a derbyn sicrwydd mewn perthynas â'r materion a godwyd.**

## 4 ADRODDIAD BLYNYDDOL 2023/24 GWASANAETH CYNLLUNIO RHAG ARGYFWNG RHANBARTHOL CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2023/24 gan Wasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (NWC-REPS) i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Gary Pritchard, Arweinydd y Cyngor, fel un oedd yn rhoi trosolwg o weithgarwch y gwasanaeth yn ystod 2023/24. Mae gan y Cyngor ddyletswyddau cynllunio ac ymateb i argyfwng dan y ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol, ac mae'n brif ymatebwr. Mae'r Cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau drwy gydweithio ag awdurdodau lleol ledled gogledd Cymru drwy'r gwasanaeth hwn, gyda Chyngor Sir y Fflint yn awdurdod cynnal.

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at weithgarwch rhanbarthol yn ystod y flwyddyn, mewn perthynas â rheoli digwyddiadau ac ymateb i argyfyngau, yn ogystal â gweithgarwch o fewn y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru. Diolchodd y Cynghorydd Gary Pritchard i'r holl staff oedd wedi bod ynghlwm â'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, gan ganmol y cydweithio â'r bartneriaeth werthfawr.

Gwahoddwyd Rheolwr Rhanbarthol Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru i wneud sylw, a dywedodd mai'r gwasanaeth rhanbarthol yw'r

unig un o'i fath yng Nghymru, ac ers ei sefydlu mae'r gwasanaeth wedi creu arbedion sylweddol ar gyfer y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, wedi lleihau dyblygiadau a sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael ar gyfer awdurdodau lleol.

Wrth graffu ar yr adroddiad blynyddol, aeth y pwyllgor ati i drafod y materion canlynol -

- Roedd y pwyllgor yn ceisio sicrwydd mewn perthynas â diweddaru'r ddogfen a symud y mater yn ei flaen, ar ôl nodi problemau diweddar mewn perthynas â chau'r ddwy bont ar Ynys Môn, a gan fod yr unig gynllun wrth gefn ar gyfer sefyllfa pan fydd y ddwy bont wedi cau ar yr un pryd wedi'i dyddio o 2011.

  Cadarnhaodd y Swyddog Cynllunio at Argyfwng, ers cyflwyno'r adroddiad diwethaf i Sgriwtini, fod y Prif Weithredwr wedi codi'r mater gyda'r Fforwm Gwydnwch Lleol (LRF) mewn llythyr at Gadeirydd y Fforwm, a bod grŵp tasg a gorffen wedi'i sefydlu er mwyn edrych ar y sefyllfa. Cadarnhaodd bod y ddogfen o 2011 yn rhestru cyfrifoldebau pob asiant yn ystod digwyddiad lle byddai'r ddwy bont wedi cau ar yr un pryd, a bod angen ei diweddaru er mwyn adlewyrchu trefniadau cyfredol a sicrhau bod yr holl asiantaethau perthnasol wedi'u cynnwys ac yn cael mewnbwn.

  Rhoddwyd y ddogfen ddiwygiedig ar waith yn ystod ymarferiad a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2024 yng Nghanolfan Fusnes Llangefni. Trafodwyd y materion a'r opsiynau o ran ymateb i gau'r ddwy bont, gan sicrhau mynediad i'r gwasanaethau brys. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn adolygu opsiynau ar gyfer stacio Cerbydau Nwyddau Trwm (HGVs), ac mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynnig mewnbwn ar y mater hwn.

  Dywedodd y Prif Weithredwr fod gwaith sylweddol wedi'i wneud mewn cyfnod byr o amser, ac er y byddai'r ymateb i argyfwng yn llawer mwy grymus erbyn hyn o gymharu â blwyddyn yn ôl, mae'n rhaid gwneud gwaith pellach, yn enwedig mewn perthynas â stacio Cerbydau Nwyddau Trwm. Mae'r unig gynllunio ar gyfer stacio Cerbydau Nwyddau Trwm yn dyddio'n ôl i gyfnod Brexit, a byddai'n cymryd pythefnos i roi ei brif elfennau ar waith ac yn ddiwerth mewn argyfwng. Er ei bod yn rhwystredig nad oes cynllun diwygiedig wedi'i baratoi hyd yma, mae cynnydd wedi mynd rhagddo ers anfon llythyr at yr LRF mewn perthynas â'r ymateb i gau Porthladd Caergybi yn ystod Storm Darragh, er enghraifft, arwyddion i rybuddio gyrwyr i beidio a gwneud y daith i'r porthladd.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod y cynllun stacio Cerbydau Nwyddau Trwm presennol yn cynnig capasiti cyfyngedig ger yr A55 yng Nghaergybi, ac nid yw'n mynd i'r afael â'r heriau ynghlwm â chau'r ddwy bont sy'n effeithio ar wydnwch yr ynys gyfan. Mae angen cynllun ar gyfer Ynys Môn, yn cynnwys Caergybi a'r cysylltiad â'r tir mawr, yn ogystal â chydnabyddiaeth rhanbarthol i'r mater hwn.

  Mewn ymateb i gwestiynau pellach, cyfeiriodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo at y berthynas weithredol rhwng y Cyngor ac Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, ac eglurodd y sefyllfa o ran trefniadau stacio Cerbydau Nwyddau Trwm ar gyfer y tir mawr, gan ddweud mai'r rheswm am yr oedi o ran paratoi cynllun ar gyfer Ynys Mon yw methiant ar lefel genedlaethol i werthfawrogi pwysigrwydd y pontydd sy'n cysylltu'r ynys, a'r effaith gwirioneddol o gau un, neu'r ddwy pont, a'r porthladd.

- Prif flaenoriaethau Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru

  Dywedodd y Rheolwr Rhanbarthol fod y gwasanaeth yn edrych ar flaenoriaethau'r LRF er mwyn sicrhau aliniad, a sicrhau bod yr holl faterion sy'n ymwneud a Gogledd Cymru wedi'u crybwyll. Mae cwblhau'r cynllun adfer yn flaenoriaeth yn ogystal â pharhad gwaith mewn perthynas â llygredd arfordirol a pharatoi cynllun sy'n bodloni anghenion y pump awdurdod lleol sydd ag arfordir. Bydd gwaith, mewn perthynas â'r pontydd, yn parhau yn ogystal â darparu hyfforddiant. Mae adolygu parodrwydd y gwasanaeth a sicrhau bod ei gynlluniau'n gyfredol hefyd yn flaenoriaethau ar gyfer y chwe i wyth mis nesaf.

DRAFT

- Yr hyfywedd o gynnig darpariaeth i hysbysu'r cyhoedd o'r amseroedd gorau i groesi drosodd i'r tir mawr er mwyn osgoi tagfeydd ar y pontydd o ganlyniad i longau'n cyrraedd neu'n gadael y porthladd o fewn y cynllun wrth gefn.

  Dywedodd y Swyddog Cynllunio at Argyfwng fod Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi cynnal adolygiad ar gyfnodau prysuraf Pont Britannia pan roedd Pont Menai wedi cael ar gyfer gwaith atgyweirio, yn ogystal â'r opsiynau ar gyfer rheoli traffig, e.e., gosod goleuadau rheoli traffig ar y slipffordd sy'n ymuno â'r pont. Cadarnhaodd y byddai'n mynd â'r ymholiad yn ôl i Traffig Cymru fel y gwasanaeth gwybodaeth traffig ar gyfer cefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru i ganfod a oes modd rhannu'r data perthnasol yn ehangach.

- Yr arbedion a wnaed drwy gydweithio'n rhanbarthol er mwyn darparu gwasanaeth cynllunio at argyfwng er mwyn cyflawni cyfrifoldebau'r awdurdod lleol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, a rheoliadau perthnasol.

  Dywedodd y Rheolwr Rhanbarthol, yn ystod digwyddiad difrifol e.e., stormydd, bydd y gwasanaeth yn mynd i Bencadlys yr Heddlu ar ran yr awdurdodau lleol er mwyn cydlynu eu hymatebion a darparu gwybodaeth gan bartneriaid amlasiantaethol, gan arbed amser i chwe swyddog gwahanol. O ran cyllid, mae'r gwasanaeth wedi lleihau costau, ac ers 2014 nid yw wedi profi cynnydd ac mae wedi dychwelyd 5% yn ôl i'r rhanbarth yn flynyddol. Mewn amser, bydd rhaid i'r gwasanaeth adolygu ei strwythurau er mwyn gwneud arbedion pellach. Eleni, mae'r gwasanaeth wedi cefnogi'r Cyngor i brofi amrywiaeth o'i gynlluniau parhad busnes wrth gefn er mwyn sicrhau eu bod yn rymus ac yn addas at eu diben.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bod y rôl gydlynol a ymgymerwyd â hi gan y gwasanaeth rhanbarthol yn ystod stormydd diweddar wedi galluogi Swyddogion y Cyngor i aros ar Ynys Môn, a thrwy hynny, darparu ymateb gwell i drigolion drwy gysylltu ag aelodau lleol, uwch reolwyr a swyddogion yn y gymuned.

  Dywedodd y Prif Weithredwr fod adolygiad ar y gwasanaeth wedi'i gwblhau'n fewnol gan Gyngor Sir y Fflint, lle cynhelir y gwasanaeth, a bod hynny wedi arwain at arbedion yn bennaf drwy leihau staff. Mae cydweithio yn cynnig gwydnwch gwell ac yn rhoi'r arbenigedd i'r Cyngor na fyddai ar gael fel arall. Yn sgil y strwythur rhanbarthol, mae'r Cyngor yn gallu canolbwyntio ar ei ymateb gwirioneddol yn hytrach na gorfod cydlynu â phartneriaid strategol.

- Rôl y gwasanaeth rhanbarthol o ran delio gyda llygredd ac ymwneud â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC), gan gynnwys cyfrannu at gynlluniau wrth gefn mewn achos o ddigwyddiadau niwclear.

  Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Rhanbarthol fod y gwasanaeth yn cael ei gynrychioli ar is-grŵp amgylcheddol yr LSF, sy'n gweithio gyda CNC drwy'r grŵp ar faterion llygredd. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda CNC fel y rheolydd ar safleoedd mae ynghlwm â nhw, megis rheoli digwyddiadau mawr a safleoedd peryglus. Mae un o swyddogion y gwasanaeth yn cydymffurfio â dyletswyddau statudol gyda ffocws diwydiannol, ac mewn perthynas â hynny, mae'r swyddog yn mynychu cyfarfodydd â grŵp rhanddeiliaid Wylfa a Thrawsfynydd er mwyn bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau, yn ogystal â grwpiau cenedlaethol er mwyn edrych ar arfer gorau. Pe byddai problem ar un o'r safleoedd hyn, byddai'r swyddog yn rhan hollbwysig o'r cynllun oddi ar y safle y byddai'n rhaid ei baratoi ar gyfer y safle dan sylw.

- **Ar ôl craffu ar yr adroddiad diweddaru, ac ar ôl clywed sylwadau'r Swyddog i'r materion a godwyd, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi cynnydd**

**gwaith Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru ar gyfer 2023/24.**

**Camau ychwanegol y cytunwyd arnynt –**

- **Gofyn i'r Prif Weithredwr ysgrifennu llythyr pellach at Gadeirydd yr LRF er mwyn cyflymu'r broses o baratoi cynllun stacio Cerbydau Nwyddau Trwm ar gyfer Ynys Môn.**
- **Gofyn i'r Swyddog Cynllunio at Argyfwng, mewn ymgynghoriad â Traffig Cymru, ddarparu data llif traffig ar Bont Britannia i aelodau.**
- **Gofyn i'r Rheolwr Gwasanaeth Rhanbarthol ddarparu gwybodaeth i aelodau am yr arbedion a wnaed drwy'r gwasanaeth, a'r gwerth am arian.**
- **Gofyn i'r Rheolwr Gwasanaeth Rhanbarthol ddarparu diweddariad i aelodau ar ddatblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer safleoedd niwclear.**
- **Bod yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2024/25 yn dangos sut mae'r gwasanaeth rhanbarthol wedi lleihau dyblygu ar gyfer bob un o'r cynghorau cyfansoddol.**

## 7 BLAEN RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini, a oedd yn ymgorffori Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor hyd at Ebrill 2025, i'w ystyried gan y pwyllgor.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y Blaen Rhaglen Waith ar gyfer 2024/25.**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r Blaen Rhaglen Waith.**

**Cynghorydd Douglas Fowlie**
**Cadeirydd**

DRAFT

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **19 Chwefror, 2025** |
| **Pwnc:** | **Gosod Cyllideb 2025/26 (Refeniw)** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ystyried y cynigion cyllidebol drafft terfynol ar gyfer 2025/26** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Douglas Fowlie** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Robin Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i'r Holl Aelodau Etholedig** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| Cytuno ar ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith ar gyllideb refeniw ddrafft derfynol y Cyngor ar gyfer 2025/26 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol yn adran 4 yr adroddiad). |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor a blaenoriaethau trawsnewid. Bydd ystyriaeth y Pwyllgor o'r cynigion cyllidebol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys sut mae'r cynigion yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ar Gynllun y Cyngor yn ogystal ag unrhyw risgiau penodol. |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)

| |
|---|
| • y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg<br>**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]** |
| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
| Cynigir y cwestiynau allweddol canlynol fel sail ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor o gynigion cyllidebol 2025/26:<br><br>i. Gan ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn sgil y broses ymgynghori cyhoeddus a'r setliad cyllidol drafft terfynol ar gyfer 2025/26, i ba raddau mae'r cynigion yn ymateb yn ddigonol i'r pwysau a'r heriau sy'n wynebu Gwasanaethau?<br><br>ii. I ba raddau mae'r Pwyllgor yn cytuno gyda strategaeth y gyllideb o warchod gwasanaethau ar gyfer unigolion bregus? Yn sgil yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a ddylid cymryd unrhyw gamau pellach er mwyn lliniaru effaith y cynigion ar ddinasyddion Ynys Môn neu grwpiau bregus?<br><br>iii. I ba raddau mae'r Pwyllgor yn cefnogi codiad o 9.5% yn y Dreth Gyngor er mwyn gwireddu cynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2025/26?<br><br>iv. Beth ydy barn terfynol y Pwyllgor Sgriwtini ynglŷn â'r cynigion arbedion ar gyfer 2025/26 ac yn sgil yr ymatebion i'r cwestiwn perthnasol yn yr ymgynghoriad?<br><br>v. Pa gamau y dylai'r Pwyllgor Gwaith eu cymryd i lenwi unrhyw fwlch ariannol a ragwelir yn 2026/27 a 2027/28 a thrwy hynny lleihau'r risg ariannol i'r Cyngor? |

| |
|---|
| **5 – Cefndir / Cyd-destun** |
| **1. CYD-DESTUN**<br>1.1 Mae'r gwaith o graffu ar y broses gosod cyllideb wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf, gan osod y seiliau ar gyfer proses well a mwy systematig sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac arfer dda. Mewn gwirionedd, mae'r broses yn caniatáu ar gyfer dull mwy systematig o graffu ariannol, fel bloc adeiladu hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn.<br><br>1.2 Bydd Aelodau'n ymwybodol bod cyllid yn hanfodol i'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu a bod goblygiadau pellgyrhaeddol i'r materion ariannol sy'n ein hwynebu fel awdurdod lleol – o ran y gwasanaethau sy'n cael eu derbyn gan ein dinasyddion a hefyd lefel y Dreth Gyngor neu'r ffioedd a'r taliadau a godir[1]. Yn anochel, bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ofyn cwestiynau heriol ynghylch pa wasanaethau i'w cynnig i'r dyfodol a pha wasanaethau i fuddsoddi ynghyd a hefyd i ba raddau y mae'r dulliau cyfredol o ddarparu gwasanaethau yn parhau i fod yn briodol. Ystyriaeth arall hefyd yw'r ffordd orau o reoli disgwyliadau pobl leol wrth wneud y newidiadau angenrheidiol. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae angen rhoi sicrwydd i'r Aelodau felly bod y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau, yn enwedig adnoddau cyllidol.<br><br>1.3 Wrth ystyried eu hymateb i'r cynigion cyllidebol drafft terfynol, bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y cynigion o ran sefyllfa ariannol tymor hwy y |

[1] Disgwyliadau Uwch – Craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Canllaw i awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Craffu Cyhoeddus, Mehefin 2014)

Cyngor (ein Cynllun Ariannol Tymor Canol) ac amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor.

**2. GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2025/26**

2.1 Ynghlwm mae copi o adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151 yn crynhoi y cynigion drafft terfynol ar gyfer cyllideb 2025/26 **(ATODIAD 1)**.

Disgwylir manylion y Setliad Terfynol ar gyfer cyllideb 2025/26 gan Lywodraeth Cymru ar 27 Chwefror, 2025.

**3. SGRIWTINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2025/26**

3.1 Mae craffu ariannol yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'n ymwneud â sicrhau craffu effeithiol o ran cynllunio, cyflawni a dilyn i fyny'r penderfyniadau allweddol hynny sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol[2]. Dylai sgriwtini felly:

- Ddarparu her effeithiol
- Dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4. PANEL SGRIWTINI CYLLID**

4.1 Mae Panel Sgriwtini Cyllid wedi'i sefydlu i sicrhau'r canlyniadau allweddol canlynol:

- Datblygu model o weithio ar faterion cyllid sy'n canolbwyntio ar ffurfio grwpiau llai fel y gall Aelodau chwarae mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd yn y pwnc ac er mwyn annog presenoldeb da a gwaith tîm.
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau sydd â'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau ariannol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

4.2 Rhoddodd y Panel ystyriaeth i fanylion diweddaraf y cynigion cyllidebol yn ei gyfarfod diwethaf (18 Chwefror, 2025). Bydd crynodeb o drafodaethau'r Panel yn cael ei gyflwyno ar lafar yn y cyfarfod gan y Cyng Geraint ap Bebb, Cadeirydd y Panel.

**5. Y BROSES AR GYFER YMGYNGHORI Â'R CYHOEDD**

5.1 Gwelwyd y Cyngor yn ceisio sylwadau ar gynigion y cyllidebau refeniw: 2025/26 drwy broses ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar. Roedd y broses hon yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd dros y blynyddoedd diwethaf o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori (a sefydlwyd gyda phartneriaid yn y 3ydd Sector).

5.2 I'r perwyl hynny ac oherwydd amseriad cyhoeddi'r Setliad Cychwynnol, roedd y broses ymgynghori yn ymgymryd â'r camau canlynol:

i. Ymgynghori gyda'r cyhoedd trwy holiadur ar lein ac roedd ar gael mewn Canolfannau Hamdden, Llyfrgelloedd, Oriel Môn, Archifdy a Chanolfan J. E. O'Toole
ii. Trafodaethau yn y fforymau sefydlog canlynol – Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned, Fforwm Pobl Hŷn a'r Fforwm Cyllid Ysgolion.

[2] Financial Scrutiny: A guide for Members (Centre for Governance and Scrutiny Tachwedd, 2025)

Gwelwyd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus hwn yn rhedeg o 22 Ionawr i 7 Chwefror, 2025. Roedd yn nodi sefyllfa ariannol y Cyngor, y risgiau ariannol a'r materion y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Roedd hefyd yn ceisio barn trethdalwyr Ynys Môn ar gynnig y Pwyllgor Gwaith i fynd i'r afael â'r risgiau hyn drwy:

- Godi'r Dreth Gyngor 9.5%
- Ddarparu cyllid ychwanegol i gwrdd â phwysau yn y galw yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
- Warchod cyllidebau ysgolion rhag unrhyw doriadau a chyllido pwysau ariannol yn llawn
- Ddefnyddio incwm o'r Premiwm Treth Gyngor i gyllido cymorth i brynwyr tro cyntaf
- Ddarparu cyllid ychwanegol i ddarparwyr gofal cymdeithasol i'w galluogi i gwrdd â'r costiau staffio ychwanegol maent yn wynebu yn 2025/26.

Ynghlwm mae crynodeb o brif negeseuon yr ymgynghoriad (**Atodiad 2**).

**MATERION SGRIWTINI ALLWEDDOL**

6.1 Mae proses gosod cyllideb 2025/26 yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ystyried a herio goblygiadau'r gyllideb ddrafft ac unrhyw gynigion buddsoddi. Derbyniwyd mewnbwn hefyd trwy'r Panel Sgriwtini Cyllid sydd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r cynigion cyllidebol. Yn y rhan hon o'r broses, gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith[3] ar gynigion drafft terfynol y Cyngor ar gyfer cyllideb refeniw 2025/26 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol ym mharagraff 4 uchod).

6.2 Yng ngoleuni'r broses gosod cyllideb ar gyfer 2025/6 hyd yma, cynigir felly y dylai'r Pwyllgor:

i. Ystyried y cynigion cyllidebol drafft terfynol a chynnig sylwadau gall y Pwyllgor Gwaith eu hystyried cyn cytuno ar ei gynigion cyllideb arfaethedig ar 27 Chwefror, 2025
ii. Archwilio effeithiau tebygol y cynigion cychwynnol ar ddinasyddion
iii. Dod i farn am lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2025/26.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2025/6. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2025/26 |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2025/26. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |

[3] Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 27 Chwefror, 2025

| |
|---|
| Mae'r adroddiad hwn yn trafod y broses ar gyfer gosod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2025/26, sy'n cynnwys ystyriaeth o'r cynigion drafft terfynol ar gyfer y cyllidebau refeniw. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| **ATODIAD 1** Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ar y cyllidebau refeniw arfaethedig ar gyfer 2025/26<br>**ATODIAD 2** Crynodeb o ymatebion i ymgynghoriad ar y gyllideb ddrafft |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**ATODIAD 1 / APPENDIX 1**

**GWYBODAETH GEFNDIR A CHRYNODEB O GYLLIDEB REFENIW ARFAETHEDIG 2025/26**

**BACKGROUND INFORMATION AND SUMMARY OF THE 2025/26 REVENUE BUDGET PROPOSAL**

## 1. GWYBODAETH CEFNDIR / BACKGROUND INFORMATION

### 1.1. Cyllideb Refeniw a Chyllid ers 2014/15 / Revenue Budget and Funding Since 2014/15

| Blwyddyn / Year | Cyllideb Net / Net Budget £'m | CAC / AEF £'m | Band D / Band D £ | Cynnydd yn Gyllideb Net Increase in Net Budget % | Cynnydd yn CAC / Increase in AEF % | Cynnydd yn Band D / Band D Increase % | % O'r Gyllideb Ariannwyd gan Treth Cyngor % of Budget Funded from Council Tax % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2014/15 | 125.944 | 96.432 | 981.41 | (2.1%) | (3.8%) | 4.5% | 23.4% |
| 2015/16 | 123.926 | 92.966 | 1,025.57 | (1.6%) | (3.6%) | 4.5% | 25.0% |
| 2016/17 | 124.038 | 91.929 | 1,061.46 | 0.1% | (1.1%) | 3.5% | 25.9% |
| 2017/18 | 126.157 | 92.652 | 1,088.01 | 1.7% | (0.8%) | 2.5% | 26.6% |
| 2018/19 | 130.820 | 95.812 | 1,140.21 | 3.7% | 3.4% | 4.8% | 26.8% |
| 2019/20 | 135.210 | 95.791 | 1,248.57 | 3.4% | 0.0% | 9.5% | 29.2% |
| 2020/21 | 142.344 | 101.005 | 1,304.73 | 5.3% | 5.4% | 4.5% | 29.0% |
| 2021/22 | 147.120 | 104.825 | 1,340.64 | 3.4% | 3.8% | 2.75% | 28.7% |
| 2022/23 | 158.367 | 114.551 | 1,367.46 | 7.6% | 9.3% | 2.0% | 27.7% |
| 2023/24 | 174.460 | 123.555 | 1,435.86 | 7.8% | 7.9% | 5.0% | 27.6% |
| 2024/25 | 184.165 | 127.586 | 1.572.30 | 5.6% | 3.3% | 9.5% | 28.7% |

**1.2. Treth Cyngor Cymru 2024/25 / Wales Council Tax 2024/25**

| Safle Rank | Awdurdod Authority | Band D 24/25 £ | Safle Rank | Awdurdod Authority | Band D 24/25 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Merthyr Tydfil | 1,975 | 12 | Abertawe / Swansea | 1,642 |
| 2 | Blaenau Gwent | 1,920 | 13 | Powys | 1,639 |
| 3 | Neath Port Talbot | 1,872 | 14 | Gâr / Camarthenshire | 1,603 |
| 4 | Penybont / Bridgend | 1,834 | 15 | Wrecsam / Wrexham | 1,598 |
| 5 | Gwynedd | 1,755 | **16** | **Ynys Môn** | **1,572** |
| 6 | Conwy | 1,733 | 17 | Bro Morgannwg / Vale of Glamorgan | 1,563 |
| 7 | Ceredigion | 1,726 | 18 | Torfaen | 1,551 |
| 8 | Rhondda Cynon Taf | 1,695 | 19 | Benfro / Pembrokeshire | 1,511 |
| 9 | Fynwy / Monmouth | 1,687 | 20 | Casnewydd / Newport | 1,497 |
| 10 | Dinbych / Denbigh | 1,679 | 21 | Caerdydd / Cardiff | 1,471 |
| 11 | Fflint / Flintshire | 1,658 | 22 | Caerffili / Caerphilly | 1,446 |

## 2. CYLLIDEB REFENIW ARFAETHEDIG CYCHWYNOL 2025/26 – INITIAL REVENUE BUDGET PROPOSAL 2025/26

### 2.1. Cyllideb Ddi Symud 2025/26 – Standstill Budget 2025/26

| | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| Cyllideb 2024/25 / Budget 2024/25 | | 184,164 |
| Chwyddiant Cyflog / Pay Inflation | 7,698 | |
| Chwyddiant Arall / Other Inflation | 3,035 | |
| Premiwm Tai Gwâg ac Ail Dai / Premium Empty and Second Homes | 1,847 | |
| Ardollau / Levies | 345 | |
| Costau Ariannu Cyfalaf / Capital Financing Charges | 302 | |
| Cynllun Lleihau Treth Cyngor / Council Tax Reduction Scheme | 133 | |
| Pwysau Gwasanaethau Plant / Children's Services Demand | 2,280 | |
| Pwysau Gwasanaethau Oedolion / Adult Services Demand | 1,273 | |
| Pwysau Gwsanaethau Eraill / Other Service Pressures | 48 | |
| Effaith Cau Ysgolion / Impact of School Closures (Talwrn, Garreglefn) | (239) | |
| Newid mewn Niferoedd Disgyblion / Change in Pupil Numbers | (292) | |
| Grantiau yn Trosglwyddo i Fewn / Grants Transferred In | 431 | |
| Cyfanswn Cynnydd yn y Gyllideb / Total Increase in the Budget | | 16,861 |
| **Cyllideb Ddi Symud 2025/26 / Standstill Budget 2025/26** | | **201,025** |
| | | |
| Grant Ar Gyfer Costau Ychwanegol Yswiriant Gwladol / Grant in Respect of the Increased NI Costs | | (2,000) |
| | | |
| **Cyllideb Ddi Symud 2025/26 / Standstill Budget 2025/26** | | **199,025** |

**2.2 Bwlch Ariannol cyn Codi'r Dreth Gyngor / Financial Gap Before Raising Council Tax**

| | £'m |
|---|---|
| **Cyllideb Ddi symud 2025/26 / Standstill Budget 2025/26** | **199.025** |
| **CAC 2025/26 / AEF 2025/26** | **(135.605)** |
| **Incwm Treth Cyngor 2024/25 / Council Tax Income 2024/25** | **(52.629)** |
| **Gap Ariannol cyn Codi'r Dreth Gyngor /<br>Financial Gap before Raising Council Tax** | **10.791** |

**2.3. Cynigion Cychwynol y Pwyllgor Gwaith 2025/26 /
Executive's Initial Budget Proposals 2025/26**

| **Cynnig** | **Proposal** |
|---|---|
| Cyllideb arfaethedig o £195.234m – cynnydd o £11.070m = 6% | Proposed Budget of £195.234m – an increase of £11.070m = 6% |
| Arbedion o £3.791m | Savings of £3.791m |
| Defnyddio £2.0m o Arian wrth Gefn y Cyngor i gyd-bwyso'r gyllideb | Use £2.0m of Council Reserves to balance the budget |
| Dim newid yn y lefel o premiwm ar ail dai a tai gwâg – aros ar 100% | No change in the level of premium for second and empty homes – remains at 100% |
| £2.238m yn ychwanegol ac ar ben chwyddiant ar gyfer Gwasanaethau Plant | Additional £2.238m for Children's Services above inflation |
| Holl costau chwyddiant ysgolion yn cael i'w cyllido'n llawn | All inflation costs for schools fully funded |
| Gronfa o £1m i helpu prynwyr tro cyntaf – cyllido gan premiwm y dreth gyngor | £1m fund to help first time buyers – funded from the council tax premium |
| Cynyddu'r Dreth Gyngor 9.5% - Band D = £1,721.70, cynnydd o £149.40 | Increase Council Tax by 9.5% - Band D = £1,721.70, an increase of £149.40 |

## 2.4 Cynigion Arbedion Arfaethedig / The Savings Proposals

| Arbedion Arfaethedig | Savings Proposal | £'000 |
|---|---|---|
| Lleihau swm premiwm y Dreth Gyngor a ddyrannwyd ar gyfer cymorth Tai i brynwyr tro 1af lawr i £1m | Reduce the amount of CT premium allocated for Housing support to 1st time buyers down to £1m | 849 |
| Dim lwfans ar gyfer pwysau demograffig mewn Gwasanaethau Oedolion | No allowance for demographic pressures in Adult Services | 1,273 |
| Dim Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) ar y Gronfa Gyffredinol am 1 flwyddyn | No Minimum Revenue Provision (MRP) on the General Fund for 1 year | 1,418 |
| Arbedion staff o ddefnyddio AI i gofnodi cofnodion cyfarfodydd gofal | Staff savings from using AI to record minutes of care meetings | 36 |
| Cynyddu'r ffi a delir gan 3 Landlord Cymdeithasol Cofrestredig am fynediad i'r gofrestr Opsiynau Tai | Increase the fee paid by 3 RSLs for access to the Housing Options register | 11 |
| Cynyddu ffioedd morwrol uwchben chwyddiant a gwella prosesau bilio a chasglu | Increase maritime fees above inflation and improve billing and collection processes | 30 |
| Dechrau codi tâl gwasanaeth, yn unol â chytundebau prydles, ar gyfer unedau diwydiannol a busnes | Begin charging a service charge, in accordance with the lease agreements, for industrial and business units | 33 |
| Lleihau cyfanswm y diwrnodau y mae canolfannau ailgylchu ar agor, o 10 diwrnod yr wythnos i 8 diwrnod yr wythnos (Penhesgyn Dydd Mercher i ddydd Sul, Gwalchmai Dydd Sul i ddydd Mawrth) | Reduce the total days that recycling centres are open, from 10 days per week to 8 days per week (Penhesgyn Wednesday to Sunday, Gwalchmai Sunday to Tuesday) | 60 |
| Dileu cyllideb banner las – Cyngor wedi tynnu allan o'r cynllun yn barod | Delete blue flag budget – Council has already withdrawn from the scheme | 11 |
| Cyllido costau staffio o ad-daliad cynyddol i'r HRA ac o gyllid grant / cronfeydd wrth gefn clustonodedig. | Fund staffing costs from an increased recharge to the HRA and from grant funding / earmarked reserves | 69 |
| Cynyddu ffioedd a thaliadau priffyrdd yn uwch na chwyddiant | Increase highway fees and charges above inflation | 60 |
| Cynyddu'r ffi am y gwasanaeth gwastraff gwyrdd gan swm sy'n fwy na lefel y chwyddiant a ganiateir yn y gyllideb ddisymud | Increase the fee for the green garden waste service by a sum greater than the level of inflation allowed for in the standstill budget | 38 |
| Lleihau cyllideb cyflenwadau a gwasanaethau penodol nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol neu lle gall y Cyngor reoli lefel y gwariant (dodrefn, offer swyddfa, taliadau cynhaliaeth i staff, mynychu cynadleddau, hysbysebu allanol anstatudol) | Reduce specific supplies and services budget which are under utilised or where the Council can control the level of expenditure (furniture, office equipment, subsistence payments to staff, attending conferences, external non statutory advertising) | 175 |
| Rhesymoli'r ddarpariaeth o wasanaethau dydd ar gyfer cleientiaid ag anableddau corfforol a dysgu | Rationalise the provision of day services for clients with physical and learning disabilities | 177 |
| Arbedion staffio na chyflawnwyd yn 2024/25 | Staff Savings Not Achieved in 2024/25 | (401) |
| Balans i Arian wrth Gefn Cyffredinol | Balance to General Contingency | (48) |
| **Cyfanswm Cynigion Arbedion** | **Total Savings Proposals** | **3,791** |

## 2.5. Crynodeb o'r Gyllideb Arfaethedig / Summary of the Initial Proposal

| | | £'m | £'m | Cynnydd o / Increase from 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Ddi-Symud 2025/26 | Standstill Budget 2025/26 | | 199.025 | |
| Arbedion Arfaethedig | Savings Proposals | | (3.791) | |
| Cyllideb Refeniw Net Arfaethedig 2025/26 | Proposed Net Revenue Budget 2025/26 | | **195.234** | **11.070** |
| | | | | |
| **Cyllidwyd Gan** | **Funded By** | | | |
| CAC | AEF | 135.605 | | 8.019 |
| Arian wrth Gefn | Reserves | 2.000 | | (2.425) |
| Y Treth Gyngor, gyda chynnydd o 9.5% | Council Tax, with rise of 9.5% | 57.629 | | 5.476 |
| | | | **195.234** | **11.070** |
| | | | | |
| Cost Band D y Dreth Gyngor = £1,721.70 – cynnydd o £149.40 - £2.87 yr wythnos | | | | |
| Council Tax Band D Charge = £1,721.70 – increase of £149.40 - £2.87 per week | | | | |

## 3. RHAGOLYGON CYLLIDEB 2026/27 & 2027/28 –

## BUDGET FORECAST 2026/27 & 2027/28

| | | 2026/27<br>£'m | 2027/28<br>£'m |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net a ddygwyd ymlaen | Net Revenue Budget B/F | 195.492 | 201.504 |
| Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant | Budget Pressures and Inflation | 6.012 | 5.347 |
| Arbedion ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn blaenorol | Savings B/F from previous year | 0.000 | (2.414) |
| **Cyllideb Ddisymud Ddiwygiedig** | **Revised Standstill Budget** | **201.504** | **204.437** |
| Cyllid Allanol Cyfun (CAC) (gan dybio cynnydd o 2.0% yn 2026/27 a 2027/28) | Aggregate External Finance (AEF) (assuming 2.0% rise in 2026/27 and 2027/28) | 138.580 | 141.352 |
| Y Dreth Cyngor (gan dybio cynnydd o 5% yn 2026/27 a 4% yn 2027/28) | Council Tax (assuming 5% rise in 2026/27 and 4% in 2027/28) | 60.510 | 62.930 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **Total Funding** | **199.090** | **204.282** |
| | | | |
| **Cyllid Ychwanegol Gofynnol / Arbedion Gofynnol** | **Additional Funding Requirement / Savings Required** | **2.414** | **0.155** |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Cyllideb Y Cyngor 2025 / 2026

## Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

## 1. Cyflwyniad

Agorwyd yr ymgynghoriad o 22 Ionawr 2025 tan 7 Chwefror 2024. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor a chafodd ei hyrwyddo ar ein cyfryngau cymdeithasol. Rhannwyd hefyd gopïau caled o'r arolwg mewn adeiladau cyhoeddus ledled Môn

Diben yr ymgynghoriad oedd casglu adborth gan drigolion Ynys Môn ar y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2025/26


Derbyniwyd cyfanswm o 927 ymateb wedi'u cwblhau'n llawn, gan gynnwys;-

- 870 arolwg wedi'u cwblhau ar-lein;
- 57 arolwg wedi'u cwblhau ar gopi caled.

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o ganlyniadau arolwg yr ymgynghoriad a'r prif themâu sydd wedi'u hadnabod o'r adborth.


## 2. Crynodeb o'r Canlyniadau

### 2.1.1 Roedd cwestiwn 1 yn gofyn - Hoffem glywed safbwyntiau pobl am y cymunedau maent yn byw ynddynt. Nodwch a ydych yn llenwi'r holiadur hwn:-




### 2.1.2 Gofynnodd Cwestiwn 2 am y cod post ymatebwyr. Mae'r rhain wedi'u mapio ac mae'r canlyniadau ynghlwm fel Atodiad 1.

### 2.1.3 Roedd Cwestiwn 3 yn gofyn – Grŵp Oedran Ymatebwyr



### 2.1.3. Roedd cwestiwn 4 yn gofyn - Pa wasanaethau sydd fwyaf pwysig i chi?

Mae'r canlyniadau'n dangos mai'r pum brif flaenoriaeth yw (gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis 5):-

| Dewis Ateb | Canran Ymatebwyr | Cyfanswm Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Casglu Gwastraff, Gwaredu ac Ailgylchu – Cyllideb £8.3m | 69.6% | 637 |
| Ffyrdd ac Isadeiledd – Cyllideb £8.3m | 68.1% | 623 |
| Addysg ac Ysgolion – Cyllideb £66.3m | 58.1% | 532 |
| Cefnogi Plant, Teuluoedd, Oedolion a Phobl Hŷn Bregus – Cyllideb £53.2m | 47.0% | 430 |
| Gwasanaeth Tân ac Achub – Cyllideb £4.9m | 42.4% | 388 |


Y pum blaenoriaeth isaf yw:-

| Dewis Ateb | Canran Ymatebwyr | Cyfanswm Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Archifau ac Amgueddfeydd – Cyllideb £0.6m | 4.3% | 39 |
| Cyngor ar Dai a Chymorth Llesiant – Cyllideb £0.8m | 8.7% | 80 |
| Llyfrgelloedd – Cyllideb £1m | 10.6% | 97 |
| Gwasanaethau Ieuenctid – Cyllideb £0.5m | 12.1% | 111 |
| Atal Digartrefedd – Cyllideb £0.8m | 13.4% | 123 |

### 2.1.4 Roedd cwestiwn 5 yn gofyn - Mae strategaeth y gyllideb y Cyngor yn ceisio, diogelu gwasanaethau ar gyfer y bobl fwyaf bregus yn ein cymuned, sicrhau hyfywedd ariannol y Cyngor, adfer costau gwasanaethau drwy ffioedd a thaliadau, lle mae modd gwneud hynny, a pharhau i fuddsoddi, lle bo'n bosibl, er mwyn moderneiddio a thrawsnewid y ffordd mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau.

**Ydych chi'n cytuno gyda'r nodau hyn?**


Roedd 52% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno.



**2.1.5. Roedd cwestiwn 6 yn gofyn - Mae'r cynigion ar gyfer cyllideb 2025/26 yn caniatáu buddsoddiad parhaus sylweddol yn y cyllidebau gofal cymdeithasol er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau.**

**Ydych chi'n cytuno â hyn?**


Roedd 59% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno.




**2.1.6. Roedd cwestiwn 7 yn gofyn - Mae cynnig y gyllideb arfaethedigyn caniatáu cynnydd cyffredinol o 3% mewn ffioedd a thaliadau dewisol.**

**A fyddech chi'n barod i dalu mwy i ddiogelu gwasanaeth rhag toriadau yn y gyllideb?**

Roedd 20% o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno, 64% naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf



**2.1.7. Roedd cwestiwn 8 yn gofyn – Ar gyfer pa wasanaeth fyddech chi'n fodlon talu mwy ar ei gyfer? (Dewiswch cymaint o wasanaethau ag y dymunwch).**


| Dewis Ateb | Canran Ymatebwyr | Cyfanswm Ymatebwyr |
|---|---|---|
| Canolfannau Hamdden | 46.1% | 268 |
| Gwasanaethau Casglu Gwastraff (gan gynnwys gwastraff gardd gwyrdd) | 40.1% | 233 |
| Ffioedd Lansio Cerbydau Dŵr Personol | 38.7% | 225 |
| Mynediad i Amgueddfeydd | 36.3% | 211 |
| Prydau Bwyd Ysgolion | 31.8% | 185 |
| Ffioedd Rheoli Plâ | 31.7% | 184 |

Roedd gan y cwestiwn hwn hefyd adran testun rhydd, gan ofyn i ymatebwyr pa wasanaethau eraill y byddent yn talu mwy amdanynt. Darparodd 262 o sylwadau ond, yn anffodus, camddeallodd nifer sylweddol o ymatebwyr y cwestiwn a nododd wasanaethau y dylai'r Cyngor fuddsoddi ynddynt, nad ydynt yn gyffredinol yn cael eu cynnwys gan ffioedd a thaliadau, neu a wnaed sylwadau fel "rydym yn talu gormod yn y Dreth Gyngor" neu wedi gwneud sylwadau cyffredinol am y gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor. O'r rhai a nododd yn glir a oeddent yn fodlon talu mwy drwy ffioedd a thaliadau, gwnaed y sylwadau canlynol:-

- Dim un (134) – dywedodd yr ymatebwyr eu bod "eisoes yn talu digon o dreth gyngor";
- Meysydd parcio a phriffyrdd (6) – awgrymodd ymatebwyr gynnydd mewn ffioedd parcio a gorfodi parcio, yn ogystal â gwelliannau i wasanaethau'r priffyrdd;
- Cymuned, gwasanaethau ymwelwyr (cyfleusterau cyhoeddus, ffioedd morwrol ac ati) (8);
- Addysg (1) – awgrymodd ymatebwr dalu mwy am ddarpariaeth addysg, gan gynnwys prydau bwyd, clybiau ysgol a theithiau ysgol;
- Llyfrgelloedd a Diwylliant (5) – ymatebwr sy'n fodlon talu i ymweld ag Oriel Môn a thalu ffioedd hwyr ar lyfrau;
- Cynllunio a'r Amgylchedd (2) – ymatebwr sy'n fodlon talu mwy am ffioedd cynllunio, gan gynnwys rheoli adeiladau, ac unrhyw wasanaethau sy'n gysylltiedig â gwella'r amgylchedd.;
- Gweithgareddau Hamdden (2) – ymatebwyr sy'n fodlon talu mwy am aelodaeth canolfannau hamdden.

**2.1.8. Roedd cwestiwn 9 yn gofyn – Mae'r cyllideb arfaethedigyn caniatáu defnyddio £1m o'r incwm a gynhyrchir o godi premiwm y Dreth Cyngor ar gartrefi gwag ac ail gartrefi i ddarparu grantiau a benthyciadau i brynwyr tro cyntaf. A ydych yn cytuno â'r defnydd arfaethedig o'r cyllid hwn a lefel y cyllid?**

Roedd 54% o'r ymatebwyr naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno, 34% naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf





**2.1.9. Roedd cwestiwn 10 yn gofyn – Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r cynigion i wneud arbedion sylweddol?**

| Dewis Ateb | Cytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| Gwella dulliau bilio a chasglu ar gyfer incwm morwrol a chynyddu rhai ffioedd uwchlaw chwyddiant: Arbediad Posib £30,000 | 77.3% | 22.7% |
| Lleihau cyfanswm y diwrnodau mae'r canolfannau ailgylchu ar agor o 10 diwrnod yr wythnos i 8 diwrnod yr wythnos (Penhesgyn dydd Mercher i ddydd Sul, Gwalchmai ddydd Sul i ddydd Mawrth): Arbediad Posib £60,000 | 53.7% | 46.3% |
| Cynyddu ffioedd a thaliadau Priffyrdd yn uwch na'r lefel chwyddiant: Arbediad Posib £60,000 | 40.8% | 59.2% |
| Lleihau cyllideb cyflenwadau a gwasanaethau penodol nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol neu lle gall y Cyngor reoli lefel y gwariant (dodrefn, offer swyddfa, taliadau cynhaliaeth i staff, mynychu cynadleddau, hysbysebu allanol anstatudol): Arbediad Posib £175,000 | 91.9% | 8.1% |
| Moderneiddio darpariaeth gwasanaethau dydd i gleientiaid ag anableddau corfforol a dysgu: Arbediad Posib £177,000 | 73.7% | 26.3% |

2.1.10. **Roedd cwestiwn 11 yn gofyn - A ydych yn cytuno â'r lefel arfaethedig o gynnydd yn y Dreth Cyngor o 8.95% (ynghyd â 0.65% i dalu am ardoll tân)?**

**Byddai cynnydd o 9.5% yn cynyddu cyllid y Cyngor gan £5.0 miliwn.**

Roedd 59% yn anghytuno’n gryf ac 22% ychwanegol yn anghutyno.




2.1.11. **Roedd cwestiwn 12 yn gofyn – Faint o gynnydd y dylid ei gyflwyno i’r Dreth Gyngor? (Byddai cynnydd o 9.5% yn cynyddu cyllid y Cyngor gan £5.0 miliwn)**

| Dewis Ateb | Ymateb % | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|
| Dim cynnydd – fyddai’n gadael diffyg cyllid gwerth £5.0m | 36.4% | 271 |
| Cynnydd rhwng 0% a 3% - fyddai’n gadael diffyg cyllid gwerth rhwng £3.4m a £5.0m | 30.4% | 226 |
| Cynnydd rhwng 3% a 5% - fyddai’n gadael diffyg cyllid gwerth rhwng £2.4m a £3.4m | 26.6% | 198 |
| Cynnydd rhwng 5% a 7.5% - fyddai’n gadael diffyg cyllid gwerth rhwng £1.0m a £2.4m | 6.2% | 46 |
| Cynnydd rhwng 7.5% a 9% - fyddai’n gadael diffyg cyllid gwerth rhwng £0.3m a £1.0m | 0.4% | 3 |

**2.1.12. Roedd cwestiwn 13 yn gofyn – Sut fyddech chi'n adfer y diffyg cyllid a nodwyd yn y cwestiwn blaenorol?**

| Dewis Ateb | Ymateb % | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|
| Opsiwn 5: Dim toriad yng nghyllidebau'r gwasanaethau. Cyllido'r cyfan gan ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn y Cyngor. | 36.4% | 269 |
| Opsiwn 4: Rhai toriadau i gyllidebau gwasanaethau. Cyllido'r mwyafrif drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor | 26.0% | 192 |
| Opsiwn 3: Cyllido 50% gyda thoriad i gyllidebau gwasanaethau. Cyllido 50% drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor | 21.7% | 160 |
| Opsiwn 2: Mwyafrif yn doriad i gyllidebau'r gwasanaethau. Rhywfaint o ddefnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor | 9.6% | 71 |
| Opsiwn 1: Pob un wedi'i gyllido gan doriad mewn cyllidebau gwasanaethau. Dim defnydd o gronfeydd wrth gefn y Cyngor | 6.2% | 46 |


**2.1.13. Roedd cwestiwn 14 yn gofyn - Cyllidebau pa wasanaethau fyddech chi'n fodlon eu lleihau? (Dewiswch cymaint o wasanaethau ag y dymunwch).**

| Dewis Ateb | Ymateb % | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|
| Archifau ac Amgueddfeydd | 61.2% | 511 |
| Twristiaeth a Morwro | 49.6% | 414 |
| LLyfrgelloedd | 45.7% | 382 |
| Gwarchod y Cyhoedd, Cynllunio, Trwyddedu ac Iechyd yr Amgylchedd | 36.2% | 302 |
| Cyngor ar Dai a Chymorth Llesiant | 35.9% | 300 |
| Rheoli'r Amgylchedd a Chefn Gwlad | 30.5% | 255 |
| Atal Digartrefedd | 26.3% | 220 |
| Canolfannau Hamdden | 26.3% | 220 |
| Glanhau Strydoedd a Traethau | 24.9% | 208 |
| Datblygu Economiadd | 24.4% | 204 |
| Gwasanaethau Ieuenctid | 18.0% | 150 |
| Cefnogi Plant, Teuluoedd, Oedolion a Phobl Hŷn Bregus | 13.1% | 109 |
| Addysg ac Ysgolion | 11.9% | 99 |
| Casglu a Gwaredu Gwastraff ac Ailgylchu | 10.2% | 85 |
| Gwasanaethau Tân | 9.3% | 78 |
| Ffyrdd ac Isadeiledd | 6.2% | 52 |

2.1.14 Darparwyd blwch testun rhydd a oedd yn caniatáu i ymatebwyr wneud sylw ychwanegol os oeddent yn dymuno. Derbyniwyd 465 o sylwadau unigol, a oedd yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau. Roedd rhai o'r sylwadau yn gadarnhaol ond, yn y mwyafrif o achosion, manteisiodd yr ymatebydd ar y cyfle i fynegi eu hanfodlonrwydd neu i wneud awgrymiadau ynghylch sut y dylai'r Cyngor geisio lleihau costau. Roedd y rhain yn cynnwys:-

- Lleihau lefelau staffio;
- Rhewi neu leihau tâl staff, yn enwedig tâl uwch reolwyr;
- Tynnu'n ôl o'r cynllun pensiwn presennol;
- Lleihau nifer y Cynghorwyr neu eu lwfansau;
- Cynyddu lefel y cronfeydd wrth gefn a ddefnyddir i gydbwyso'r gyllideb;
- Lleihau gwastraff ac aneffeithlonrwydd;
- Stopio staff rhag gweithio gartref;
- Caniatáu i fwy o staff weithio gartref a lleihau / cau swyddfeydd y Cyngor;
- Rhannu gwasanaethau cefnogaeth y Cyngor gyda chynghorau eraill;
- Buddsoddi mewn adeiladau'r Cyngor e.e. Canolfannau Hamdden;
- Dadlau'r achos i Lywodraeth Cymru bod angen cyllid ychwanegol i gynnal gwasanaethau hanfodol.

# YMATEBION YN OL ARDAL



| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **19 Chwefror, 2025** |
| **Pwnc:** | **Gosod Cyllideb 2025/26 (Cyfalaf)** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ystyried y cynigion cyllidebol draft terfynol ar gyfer 2025/26** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Douglas Fowlie** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Robin Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith ar gynigion terfynol y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2025/26 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol ym mharagraff 4 isod) a chan gymryd i ystyriaeth y sylwadau a wnaed gan y Panel Sgriwtini Cyllid.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor a'r blaenoriaethau strategol. Bydd ystyriaeth y Pwyllgor o'r cynigion cyfalaf ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys sut mae'r cynigion yn galluogi'r Cyngor i gyflawni Cynllun y Cyngor yn ogystal ag unrhyw risgiau penodol.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

3.1 Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

3.3 Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

3.4 Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

3.6 Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

Cynigir y cwestiynau allweddol canlynol fel sail ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor o gynigion cyllidebol cyfalaf 2025/26:

i. I ba raddau mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r rhaglen gyfalaf arfaethedig a'r cynlluniau a gynigir o ystyried y cyllid cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael yn y Gronfa Gyffredinol?

ii. Sut mae cynigion cyfalaf 2025/26 yn galluogi cyflawni blaenoriaethau tymor canol y Cyngor yn ogystal â chydbwyso pwysau tymor byr ac ydy egwyddorion Strategaeth Gyfalaf y Cyngor (Rhan 5 paragraff 1.3 isod) yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ar ei amcanion corfforaethol?

iii. Mae cyllidebau cyfalaf y Cyngor yn cynnwys gwariant a gyllidir gan y Cyfrif Refeniw Tai. Pa effaith gaiff y buddsoddiad yma ar stoc tai'r Cyngor, ein tenantiaid presennol a'r unigolion sydd ar y rhestr aros am dŷ?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

### 1. CYD-DESTUN

1.1 Mae'r gwaith o graffu ar y broses gosod cyllideb wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf, gan osod y seiliau ar gyfer proses well a mwy systematig sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac arfer dda. Mewn gwirionedd, mae'r broses yn caniatáu ar gyfer dull mwy systematig o graffu ariannol, fel bloc adeiladu hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn. Mae ein dull o graffu ariannol yn dod i'r amlwg fel model o arfer dda.

**1.2 Strategaeth Gyfalaf 2025/26**

Mae Côd Darbodus diwygiedig CIPFA [1] yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu strategaeth gyfalaf er mwyn:

- Nodi'r cyd-destun tymor hir y dylid gwneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf a buddsoddi ynddo
- Fel ffordd o sicrhau bod Cynghorau'n gwneud penderfyniadau cyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion a blaenoriaethau gwasanaeth
- Sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd ystyriaeth briodol o stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodusrwydd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd wrth osod eu rhaglenni cyfalaf.

Gweler bod y Pwyllgor Gwaith[2] yn y broses o roi ystyriaeth i strategaeth gyfalaf a rhaglen gyfalaf yr Awdurdod ar gyfer 2025/26. Mae'n nodi'r amcanion, yr egwyddorion a'r fframwaith llywodraethu i sicrhau bod yr Awdurdod yn cymryd penderfyniadau ar wariant cyfalaf a buddsoddi yn unol â Chynllun y Cyngor a'r blaenoriaethau strategol lleol. Un o egwyddorion sylfaenol y Strategaeth yw canolbwyntio gwariant cyfalaf ar brosiectau sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni amcanion allweddol Cynllun y Cyngor ac sy'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol:

[1] Côd Darbodus Diwygiedig (CIPFA) dyddiedig Medi 2017
[2] Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Chwefror 2025

i. **Yr Iaith Gymraeg** – cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg
ii. **Gofal Cymdeithasol a Llesiant** – rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir
iii. **Addysg** – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol
iv. **Tai** – sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref
v. **Economi –** hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu'r economi
vi. **Newid hinsawdd** – ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Mae'r Strategaeth hefyd yn nodi'r gwariant cyfalaf posib yn y dyfodol, yn asesu'r effaith ar elfen cyllido cyfalaf y cyfrif refeniw ac yn pennu'r cyllid sydd ar gael i ariannu cynlluniau cyfalaf newydd am y cyfnod 2025/26. Hefyd, mae'r strategaeth yn nodi'r egwyddorion tymor hir sy'n sail i gynllunio cyfalaf i'r dyfodol.

**1.3 Egwyddorion y Strategaeth Gyfalaf**

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn trafod nifer o egwyddorion tymor hir a ddylai fod yn sail i raglen gyfalaf y Cyngor:

- Dylai'r rhaglen gyfalaf flynyddol ganolbwyntio gwariant cyfalaf ar brosiectau sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf at flaenoriaethau allweddol y Cyngor am y cyfnod hyd at 2025/26.
- Dylid dyrannu cyllid cyfalaf bob blwyddyn i sicrhau buddsoddiad yn yr asedau cyfredol
- Bydd y Cyngor yn sicrhau'r cyllid cyfalaf allanol mwyaf posib os oes modd gwneud hynny ac os yw'n fforddiadwy
- Blaenoriaethir cyllid cyfalaf hefyd i'w wario ar asedau sydd raid wrthynt i helpu'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol
- Ymrwymiad parhaus i Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r defnydd o unrhyw gyllid allanol ddaw yn y dyfodol.

**1.4 Ffynonellau Cyllido'r Gyllideb Gyfalaf**

Ariennir rhaglen gyfalaf flynyddol y Cyngor trwy nifer o ffynonellau cyllid:

- Derbyniadau Cyfalaf
- Cyfraniad gan Refeniw / Arian wrth Gefn
- Benthyca â Chefnogaeth
- Benthyca Di-gefnogaeth
- Grant Cyfalaf Cyffredinol
- Grantiau Allanol
- Lwfans Atgyweirio Mawr

**1.5** Wrth ystyried eu hymateb i'r cynigion cyllidebol terfynol, bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y cynigion o ran sefyllfa ariannol tymor hirach y Cyngor (ein Cynllun Ariannol Tymor Canol a'r Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf 2025/26) ac amcanion a blaenoriaethau tymor hir y Cyngor.

**2 GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2025/26**

**2.1** Ynghlwm mae adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ar y cynigion drafft terfynol ar gyfer cyllideb 2025/26 **(ATODIAD 1)** a gyflwynir i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Chwefror, 2025. Mae'r papur yn cyflwyno datganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r materion a ganlyn:

- Egwyddorion y strategaeth gyfalaf
- Y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2025/26 gan gynnwys y rhaglen gyfalaf gyffredinol, buddsoddiad yn y Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a rhaglen gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai
- Sut y bydd y rhaglen gyfalaf yn cael ei hariannu yn 2025/26
- Effaith ar falansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

  Disgwylir manylion y Setliad Terfynol ar gyfer cyllideb 2025/26 gan Lywodraeth Cymru ar 27 Chwefror, 2025.

**3. SGRIWTINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2025/26**

3.1 Mae sgriwtini ariannol yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'n ymwneud â sicrhau sgriwtini effeithiol o ran cynllunio, cyflawni a dilyn i fyny'r penderfyniadau allweddol hynny sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Dylai sgriwtini felly:

- Ddarparu her effeithiol
- Dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4 PANEL SGRIWTINI CYLLID**

4.1 Rhoddodd y Panel ystyriaeth i fanylion diweddaraf y cynigion cyllidebol yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror, 2025. Cyflwynir crynodeb ar lafar o drafodaethau'r Panel yn y cyfarfod gan y Cyng Geraint ap Bebb, cadeirydd y Panel.

**5 MATERION SGRIWTINI ALLWEDDOL**

5.1 Mae proses gosod cyllideb 2025/26 yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ystyried a herio goblygiadau'r gyllideb gyfalaf ddrafft terfynol ac unrhyw risgiau. Derbyniwyd mewnbwn hefyd trwy'r Panel Sgriwtini Cyllid sydd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r cynigion cyllidebol drafft. Yn y rhan hon o'r broses, gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith[3] ar gynigion cyfalaf drafft terfynol y Cyngor ar gyfer cyllideb gyfalaf 2025/26 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol ym mharagraff 4 uchod).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2025/26. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |

[3] Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 27 Chwefror, 2025

| |
|---|
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2025/26. |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2025/26. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Mae'r adroddiad hwn yn trafod y broses ar gyfer gosod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2025/26 sy'n cynnwys ystyried y cynigion cyllideb ar gyfer y gyllideb gyfalaf. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| **ATODIAD 1:** adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ar y cyllidebau cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2025/26 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **27 CHWEFROR 2025** |
| **Pwnc:** | **CYLLIDEB CYFALAF 2025/26** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID A THAI** |
| **Pennaeth / Cyfarwyddwr Gwasanaeth:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**<br>01248 762601<br>rmjfi@ynysmon.gov.wales |
| **Aelodau Lleol:** | **Amh.** |

**A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb cyfalaf ar gyfer 2025/26, a fydd yn cael ei chyflwyno am gymeradwyaeth gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2025.

**ARGYMHELLION**

Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol i'r Cyngor llawn ar gyfer 2025/26:-

| | **Cyf** | **£'000** |
|---|---|---|
| Cynlluniau 2024/25 a Ddygwyd Ymlaen – Cronfa Gyffredinol | Para 4.1 | 6,439 |
| Atgyweirio / Amnewid Asedau | Para 4.2 a 4.3 | 6,304 |
| Diweddaru Systemau Gwresogi gan ddefnyddio'r cyllid grant Gwres Carbon Isel | Para 4.2 | 4,463 |
| Cymunedau Dysgu | Para 5 | 152 |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd | Para 6.1 | 330 |
| Caergybi: Trawsnewid yn seiliedig ar Ddiwylliant a Threftadaeth | Para 6.2 | 4,367 |
| Safleoedd ac Adeiladau Datblygu Economaidd | Para 6.3 | 200 |
| Isadeiledd Gwastraff | Para 6.4 | 1,445 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Para 7 | 15,609 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2025/26** | | **39,309** |
| **Cyllidir gan:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 2,661 |
| Cronfa Gyffredinol - Benthyca â Chefnogaeth | | 3,118 |
| Cymunedau Dysgu – Benthyca Digefnogaeth | | 152 |
| Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | | 500 |
| Arian Wrth Gefn Clustnodedig | | 1,160 |
| Grantiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU | | 14,816 |
| Benthyca Digefnogaeth – Cronfa Gyffredinol | | 1,293 |
| Gwarged Cyfrif Refeniw'r CRT | | 5,488 |
| Grantiau Allanol y CRT | | 3,531 |
| Benthyca Digefnogaeth y CRT | | 6,590 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2025/26** | | **39,309** |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
| --- |
| Ystyrir nifer o gynlluniau ychwanegol yn y rhaglen gyfalaf, a’r prif ffactor o ran cyllid fydd fforddiadwyedd a chynyddu cyllid grant allanol. |
| **C – Am ba reswm mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith?** |
| Mater wedi’i neilltuo i’r Pwyllgor Gwaith yw cynnig y gyllideb gyfalaf flynyddol. |
| **CH – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| Ydi |
| **D – A yw’r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Amherthnasol |

| **Dd – Asesu’r effaith bosibl (os yn berthnasol):** | | |
| --- | --- | --- |
| **1** | Sut mae’r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae’r gyllideb gyfalaf yn sicrhau cyllid er mwyn cynnal asedau’r Cyngor, ac mae’n ffurfio rhan o’r strategaeth i fodloni’r amcanion sydd wedi’u nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. |
| **2** | A rhagwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Bydd parhau i gynnal a chadw asedau’r Cyngor yn atal costau mwy yn y dyfodol. |
| **3** | A ydyn ni wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn dod i’r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy. | Mae prosiectau cyfalaf o ran Cymunedau Dysgu a’r CRT wedi’u halinio â blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth lunio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheiny y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt yn uniongyrchol? Eglurwch sut. | Fel rhan o broses ymgynghori Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2023 – 2028, gofynnwyd nifer o gwestiynau i ddinasyddion yn ymwneud â gwariant cyfalaf a’u blaenoriaethau. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith a all y penderfyniad ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae’r gyllideb cyfalaf yn sicrhau cyllid er mwyn cynnal asedau’r Cyngor, ac mae’n ffurfio rhan o’r strategaeth i fodloni’r amcanion sydd wedi’u nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. |
| **6** | Os mai penderfyniad strategol yw hwn, nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad ei gael ar y rheiny sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Heb adnabod unrhyw effaith. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith bosibl a all y penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, a thrin y Gymraeg yn gydradd â’r Saesneg | Heb adnabod unrhyw effaith. |

| **E -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| --- | --- | --- |
| **1** | Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (mandadol) | Mae’r TA wedi ystyried yr adroddiad ac mae eu sylwadau wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| **2** | Cyllid / Swyddog Adran 151 (mandadol) | Awdur yr adroddiad. |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol) | Mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor yn aelod o'r TA. |
| **4** | Adnoddau Dynol (AD) | Dim effaith uniongyrchol ar AD. |
| **5** | Eiddo | Drafftiwyd y rhaglen gyfalaf mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Eiddo ac Asedau ynghyd â Phennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo. |
| **6** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Mae sylwadau Pennaeth TGCh wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiad. |
| **7** | Sgriwtini | I'w gadarnhau |
| **8** | Aelodau Lleol | Mae'r cynigion yn berthnasol i'r holl Aelodau. |
| **9** | Unrhyw gyrff allanol / eraill | Amherthnasol. |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 – Adroddiad ar Gyllideb Cyfalaf 2025/26
Atodiad 2 – Cyllideb Cyfalaf Arfaethedig Terfynol 2025/26

**FF - Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Adroddiad Strategaeth Cyfalaf – Cyngor llawn 7 Mawrth 2024
Cyllideb Cyfalaf 2024/25 – Cyngor llawn 7 Mawrth 2024
Adroddiadau Monitro Cyfalaf Chwarterol 2024/25 – Pwyllgor Gwaith - 24 Medi 2024, 26 Tachwedd 2024, 18 Chwefror 2025

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1.** Mae'r Gyllideb Cyfalaf ar gyfer 2025/26, sydd wedi'i chynnwys isod, yn ystyried yr egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Cyfalaf a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2024. Mae'r Strategaeth Cyfalaf wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r gyllideb cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2025/26, ond nid yw egwyddorion y strategaeth wedi newid.

## 2. EGWYDDORION Y STRATEGAETH CYFALAF

**2.1.** Cymeradwywyd y Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2024/25 gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn, a bydd yn cael ei ddiweddaru ar gyfer 2025/26 i adlewyrchu'r lefelau cyllido newydd, unrhyw newidiadau ym mlaenoriaethau'r Cyngor ac unrhyw newidiadau a nodwyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2025/26, fydd yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn ym mis Mawrth 2025.

**2.2.** Mae'r Strategaeth Gyfalaf gyfredol yn nodi'r egwyddorion canlynol ar gyfer y Cyngor wrth lunio ei raglen gyfalaf:-

- Bob blwyddyn, bydd y cyllid cyfalaf yn cael ei ddyrannu er mwyn sicrhau buddsoddiad mewn asedau presennol i'w diogelu ar gyfer y dyfodol.

  Bydd y Cyngor yn defnyddio cyllid cyfalaf allanol pryd bynnag y bo'n bosibl a fforddiadwy.

- Bydd cyllid cyfalaf hefyd yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer asedau sydd eu hangen i helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

  Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i Raglen Cymunedau Dysgu, a bydd yn parhau i ddefnyddio cyllid allanol y rhaglen yn llawn.

**2.3.** Yna, fe aeth y strategaeth ymlaen i ddarparu ychydig mwy o wybodaeth ynghylch sut y byddai'r egwyddorion hyn yn cael eu darparu, ac roedd yn cynnwys y pwyntiau allweddol canlynol:-

- Ystyrir y Rhaglen Cymunedau Dysgu ar wahân i weddill y rhaglen gyfalaf gyffredinol.

- Mae disodli asedau presennol a darfodedig yn fuddiol o ran lleihau costau refeniw, a bydd y rhaglen gyfalaf yn dyrannu cyllid er mwyn gwella offer TG presennol, cerbydau ac adeiladu'r Cyngor, neu gael rhai newydd.

- Mae'n ofyniad statudol i gynnig grantiau cyfleusterau i'r anabl, a bydd y rhaglen gyfalaf yn dosbarthu cyllid yn flynyddol er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.

- Bydd swm yn cael ei ddyrannu'n flynyddol er mwyn cyllido gwaith gwella ffyrdd. Bydd y swm yn ddibynnol ar y swm sydd ei angen i gyflawni isafswm gwerth unrhyw gontract, y lefel o gyllid allanol a mewnol sydd ar gael ac asesiad ar gyflwr ffyrdd yr Awdurdod.

- Bydd prosiectau sydd angen cyllid cyfatebol yn cael eu hasesu fesul achos, a bydd unrhyw benderfyniad i ddyrannu cyllid yn seiliedig ar sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor, unrhyw oblygiadau refeniw parhaus a chymhareb cyllid y Cyngor â chyllid allanol.

- Cwblheir prosiectau sy'n cael eu cyllido gan fenthyca digefnogaeth dim ond os yw'r gostyngiad mewn costau refeniw, neu mae'r incwm ychwanegol a gynhyrchir, yn ddigon i fodloni unrhyw gostau cyllido cyfalaf ychwanegol.

**2.4.** Mae'r Strategaeth Gyfalaf hefyd yn egluro sut y dylid asesu unrhyw fid newydd, fel a ganlyn:-

- Faint fydd y prosiect yn ei gyfrannu at flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol;
- A yw'r prosiect yn denu cyllid allanol sylweddol;
- A fydd y prosiect yn arwain at arbedion refeniw;
- A fydd y prosiect yn helpu i liniaru risg corfforaethol.

## 3. CYLLIDO RHAGLEN GYFALAF 2025/26

**3.1.** Dangosir y cyllid sydd ar gael i gyllido'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2025/26 yn Nhabl 1 isod. Dylid nodi fod y ffigyrau ar gyfer y Grant Cyfalaf Cyffredinol a Benthyca â Chefnogaeth yn seiliedig ar ffigyrau'r setliad dros dro ar gyfer Llywodraeth Lleol. Ni fydd y ffigwr terfynol yn hysbys nes cyhoeddir ffigyrau'r setliad terfynol ar 28 Chwefror 2025. Ni ddisgwylir y bydd lefel y cyllid yn newid yn sylweddol rhwng y setliad dros dro a'r setliad terfynol.

**Tabl 1**
**Cyllid Cyfalaf y Disgwylir ar gyfer 2025/26**

| Ffynonellau Cyllido | £'000 | £'000 |
|---|---|---|
| **Rhaglen Gyfalaf Cronfa Gyffredinol** | | |
| Cynlluniau / Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2024/25 | 6,439 | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol 2025/26 | 2,661 | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 2,126 | |
| Grantiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (gwarantedig) | 9,829 | |
| Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | 500 | |
| Arian Wrth Gefn Clustnodedig | 700 | |
| **Cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Gyffredinol (Cronfa'r Cyngor)** | | **22,255** |
| **Cymunedau Dysgu** | | |
| Benthyca Digefnogaeth | 152 | |
| **Cyllid ar gyfer Cymunedau Dysgu** | | **152** |
| **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | | |
| Arian Wrth Gefn y CRT | 0 | |
| CRT – Gwarged yn ystod y Flwyddyn | 5,488 | |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru a grantiau allanol eraill | 13,690 | |
| **Cyllid ar gyfer y CRT** | | **9,019** |
| | | |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2025/26** | | **31,426** |

**3.2.** Mae'r Cyllid Cyfalaf Cyffredinol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC)ar gyfer 2025/26 £401k yn uwch na'r dyraniad ar gyfer 2024/25, sef y cynnydd sylweddol cyntaf y mae'r Cyngor wedi'i dderbyn ers nifer o flynyddoedd, ond nid yw'r cynnydd yn gwneud iawn am y lleihad yng ngwerth y cyllid yn sgil chwyddiant.

**3.3.** Er bod gan y Cyngor ysgolion heb eu gwerthu, mae'r derbyniadau cyfalaf a dderbyniwyd wedi cael eu dyrannu i gyllido ysgolion newydd e.e. nid yw Ysgol Llangaffo wedi ei werthu eto, ond mae'r derbyniadau cyfalaf o unrhyw werthiant yn y dyfodol wedi eu dyrannu fel rhan o'r cyllid ar gyfer Ysgol Santes Dwynwen. Mae gan y Cyngor ychydig o asedau y mae'n dymuno'u gwaredu, ac mae derbyniadau cyfalaf sydd heb eu dyrannu ar gyfer unrhyw gynlluniau penodol. Cynigir rhyddhau £500k o'r derbyniadau cyfalaf anneilltuedig hyn i gynyddu'r cyllid sydd ar gael yn 2025/26.

**3.4.** Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae'r Cyngor wedi darparu cyllid mewn arian wrth gefn clustnodedig er mwyn cyllido prosiectau unigol. Mae'r Cyngor wedi defnyddio £3.78m o arian wrth gefn i gydbwyso cyllideb refeniw 2023/24, ac mae'n bwriadu defnyddio £4.4m yn rhagor yn 2024/25. Mae hyn wedi lleihau arian wrth gefn y Cyngor i'r isafswm, ac ni ellir defnyddio arian wrth gefn fel cyllid cyfalaf yn 2025/26, er bod £700k o arian wrth gefn clustnodedig ar gael i gyllido prosiectau cyfalaf yn 2025/26.

**3.5.** Mae cyllid y CRT wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau'r cyfrif hwnnw, ac ni ellir ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall. Erbyn hyn, rhagwelir y bydd balans arian wrth gefn y CRT wedi lleihau i'r isafswm ac na fydd modd rhyddhau unrhyw gyllid pellach o'r arian wrth gefn. Mae'r gwarged a gynhyrchir drwy gyfrif refeniw'r CRT yn cael ei ail-fuddsoddi yn y stoc dai drwy'r rhaglen gyfalaf, ac mae'r ffigwr uchod yn seiliedig ar y gwarged amcangyfrifiedig fel y nodir yn y Cynllun Busnes 30 mlynedd. Mae'r cyllid grant yn cynnwys Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru a chyllid grant ar gyfer datblygu cyfleuster gofal ychwanegol ym Mhorthaethwy.

## 4. RHAGLEN GYFALAF ARFAETHEDIG 2025/26

### 4.1. Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2024/25

Mae'r adroddiad monitro'r gyllideb gyfalaf ar ddiwedd chwarter 3 2024/25 yn rhagweld tanwariant o £6.439m yn y rhaglen gyfalaf, er gall y sefyllfa derfynol newid yn ystod y chwarter olaf. Unwaith fydd y sefyllfa derfynol ar gyfer 2024/25 yn hysbys, bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Gwaith ynghyd â chais i gymeradwyo'r broses o ddwyn cyllid ymlaen o 2024/25 i 2025/26. Mae'r cynlluniau sy'n debygol o gael eu dwyn ymlaen i 2025/26 i'w gweld yn y tabl isod:-

**Tabl 2**
**Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen o 2024/25**

| Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen o 2024/25 | 2025/26 £'000 |
|---|---|
| Atgyweiriadau Mawr ac Uwchraddiadau Diweddaru Adeiladau Ysgolion | 769 |
| Prynu Cerbydau | 48 |
| Prynu Offer TG | 352 |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 270 |
| Cyllid Cyfatebol ar gyfer Grantiau Gwres Carbon Isel | 696 |
| Adfywio Caergybi (THI Cam II) | 291 |
| Isadeiledd Morwrol ac Ymwelwyr | 190 |
| Caergybi: Trawsnewid yn seiliedig ar Ddiwylliant a Threftadaeth | 3,426 |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd | 110 |
| Canolfan Glanhwfa | 287 |
| **Cyfanswm Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen** | **6,439** |
| **Cyllidir gan** | |
| Benthyca â Chefnogaeth | 992 |
| Grantiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU | 4,987 |
| Arian Wrth Gefn Clustnodedig | 460 |
| **Cyfanswm y Cyllid ar gyfer Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen** | **6,439** |

### 4.2. Adnewyddu / Amnewid Asedau Presennol

Bob blwyddyn, mae'n rhaid buddsoddi yn asedau'r Cyngor er mwyn ymestyn eu hoes a sicrhau eu bod yn addas at eu diben, neu i amnewid asedau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. Cynigir y canlynol:-

- **Adnewyddu Ysgolion –** Mae'r gost o glirio'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw ym 46 o ysgolion y Cyngor yn sylweddol, ac ni ellir ei gyllido'n llawn yn y tymor byr a chanolig. Efallai y bydd rhaglen moderneiddio ysgolion y Cyngor yn lleihau peth o'r gost hon, ond bydd nifer o'r ysgolion presennol yn parhau i gael eu defnyddio yn y tymor hir. Mae £471k wedi cael ei ddyrannu, ac mae swm pellach o £319k wedi cael ei ddyrannu fel cyllid cyfatebol ar gyfer gwaith a gyllidir drwy grant Gwres Carbon Isel LlC, a bydd hyn yn denu £2.873m o gyllid grant. Yn ychwanegol i hyn mae £345k wedi cael ei ddyrannu i ddechrau ar y gwaith o uwchraddio'r toiledau yn ysgolion uwchradd y Cyngor. Bu y gwaith yn cael ei flaenoriaethu i wneud yr uwchraddau mwyaf brys yn gyntaf.
- **Adnewyddu Adeiladau nad ydynt yn Ysgolion -** Oherwydd cyllid annigonol dros nifer o flynyddoedd, mae adeiladu'r Cyngor yn parhau i ddirywio. Mae £1.327m o waith wedi'i adnabod ar gyfer 2025/26 mewn canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, cartrefi gofal preswyl a chyfleusterau gofal dydd. Yn ogystal â hyn, mae £127k wedi'i ddyrannu fel cyllid cyfatebol ar gyfer gwaith a gyllidir â Grant Gwres Carbon Isel LlC a fydd yn denu £1.144m o gyllid grant. Mae'r gwaith adnewyddu yn parhau yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur, ac mae swm pellach o £500k wedi'i ddyrannu o'r arian wrth gefn clustnodedig.
- **Ail-wynebu Priffyrdd -** Mae'r Adroddiad Statws ac Opsiwn Blynyddol yn cadarnhau fod angen cyllideb flynyddol o £2.5m er mwyn cynnal amodau Sefydlogrwydd (Ataliol) ar ein ffyrdd. Byddai cyllideb dan y swm gofynnol hwn yn arwain at lai o effeithlonrwydd a llai o werth am arian, gyda costau ychwanegol ar gyfer yr Awdurdod Priffyrdd gyda mwy o gyllid yn cael ei wario ar waith brys a'r risg o gynnydd mawn hawliadau trydydd parti yn cael eu gwneud yn erbyn yr Awdurdod. Mae £1.7m wedi'i ddyrannu ar gyfer y gwaith hwn. Fodd bynnag, rhagwelir y gall LlC gyllido benthyca ychwanegol a fyddai'n caniatáu cynyddu'r dyraniad hwn yn 2025/26 a 2026/27.
- **Cerbydau –** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad carbon niwtral ac, er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw, mae'n rhaid i'r Cyngor leihau nifer y cerbydau petrol a disel a ddefnyddir. Fodd bynnag, bydd cyflawni hyn o fewn cyfyngiadau cyllido presennol yn heriol, a bydd y Cyngor yn dibynnu ar gyllid grant ychwanegol, neu bydd yn rhaid newid o bryniant uniongyrchol i brydlesu, er mwyn cyflawni'r newid. Mae'r Gwasanaeth wedi nodi lori graeanu a bysiau mini newydd ar gyfer Trafnidiaeth Cymunedol Môn fel blaenoriaeth. Mae £240k wedi'i ddyrannu yn y gyllideb arfaethedig i brynu un lori graeanu newydd ac i ddechrau rhaglen amgen bysiau mini Trafnidiaeth Cymunedol Môn, a swm pellach o £300k i ddisodli cerbydau fflyd hyn.

  **Asedau TG -** Mae angen buddsoddiad parhaus er mwyn cynnal isadeiledd craidd y Cyngor a disodli dyfeisiadau a ddefnyddir gan staff i gael mynediad at systemau. Nodwyd mai £271k sydd ei angen er mwyn cynnal yr isadeiledd craidd ac i ddisodli dyfeisiau bwrdd gwaith.
- **Asedau TG mewn Ysgolion –** Gwnaed buddsooddiadau sylweddol i uwchraddio asedau TG mewn ysgolion, gan ddefnyddio cyllid LlC (HWB). Bydd angen i'r Cyngor gyllido disodli'r asedau yma pan ddaw i ddiwedd eu hoes defnyddiol. Er mai ond swm bach o wariant sydd ei angen yn 2025/26, dyrennir cyllid pan ar gael er mwyn cynyddu'r arian wrth gefn i gyllido'r gwariant sylweddol, dros £2m, bydd ei angen yn 2027/28. Mae swm pellach o £155k wedi ei ddyrannu i gyllido'r gost o ddisodli dyfeisiadau ac isadeiledd TG mewn ysgolion, gydag unrhyw gyllid heb ei ddefnyddio'n cael ei ddwyn ymlaen i flynyddoedd y dyfodol.

**4.3. Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl**

Mae'r galw am addasiadau mawr i alluogi trigolion anabl i barhau i fyw gartref yn parhau i fod yn uchel. Mae cyllid o £500k ar gyfer addasu tai Cyngor wedi'i gynnwys yng nghyllideb cynnal a chadw arfaethedig y CRT, fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor gyllido gwaith mewn cartrefi preifat hefyd. Mae'r dyraniad wedi'i gynyddu i £870k yn 2025/26, cynnydd o £120k o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## 5. RHAGLEN CYMUNEDAU DYSGU

**5.1.** Mae gwaith y Cyngor i foderneiddio'r stad ysgolion, drwy raglen Cymunedau Dysgu LlC, yn symud i'r cam nesaf ac, o ganlyniad, nid oes unrhyw waith wedi'i gynllunio ar gyfer unrhyw ysgolion newydd yn 2025/26. Mae angen cyllideb o £152k i dalu'r symiau wrth gefn yn gysylltiedig â phrosiect Ysgol y Graig a gwblhawyd yn 2024.

## 6. PROSIECTAU ERAILL

**6.1.** Caiff cynlluniau llifogydd eu cyllido â grant gan LlC (85%), ac mae'r 15% sy'n weddill yn cael ei gyllido gan y Cyngor. Mae nifer o brosiectau'n dal i gael eu datblygu, yn cynnwys cynlluniau mawr ym Mhorthaethwy a Llanfairpwll. Mae'r ddau gynllun yn y cyfnod dylunio a bydd achos busnes llawn yn cael ei gyflwyno i LlC am gyllid i ymgymryd â'r gwaith. Mae £300k wedi cael ei ddyrannu fel cyllid cyfatebol ar gyfer un o'r cynlluniau, ond bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio dim ond os bydd LlC yn darparu cyllid grant ar gyfer y cynlluniau. Ar hyn o bryd, nid oes sicrwydd y bydd y cais yn llwyddiannus.

**6.2.** Mae'r cyllid yn ymwneud â'r prosiect Caergybi : Trawsnewid yn seiliedig ar edi'i ysgogi gan Ddiwylliant a Threftadaeth yn symud i'w flwyddyn olaf, a bydd nifer o brosiectau'n cael eu rhoi ar waith gan y Cyngor a sefydliadau eraill. Mae'r prosiect yn cael ei gyllido gan Lywodraeth y DU drwy gynllun grant a ddaeth yn lle'r cyllid a oedd yn arfer cael ei ddarparu drwy raglenni'r UE. Yn ogystal â'r cyllid a ddygwyd ymlaen o 2024/25, bwriedir gwario swm pellach o £4.367m yn 2025/26.

**6.3.** Mae'r gwasanaeth Datblygu Economaidd wrthi'n chwilio am grant i ddatblygu mwy o unedau busnes ledled Ynys Môn, ond mae cychwyn y cynlluniau'n ddibynnol ar geisiadau grant llwyddiannus. Mae £200k wedi'i ddyrannu i wneud gwaith pellach i ddatblygu a dylunio cynlluniau unigol.

**6.4.** Bydd angen gwariant sylweddol yn y tymor canolig i ddiweddaru cyfleusterau gwastraff y Cyngor. Bydd hyn yn nid yn unig yn disodli hen offer, ond bydd hefyd yn caniatáu i'r cyfleusterau ym Mhenhesgyn a Gwalchmai gael eu uwchraddio i gwrdd â'r gofynion cyfreithiol newydd ac fel y gall y Cyngor gwrdd â thargedau ailgylchu LlC. Mae gwaith ar y gweill i sicrhau cyllid grant gan LlC i gyllido mwyafrif y buddsoddiad. Yn 2025/26, bydd y Cyngor yn derbyn cyllid drwy gynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pecynnu (eEPR) Llywodraeth y DU. Rhagwelir y bydd y Cyngor yn derbyn £2.3m o gyllid yn 2025/26. Mae'r cyllid hwn wedi'i glustnodi i gyllido buddsoddiad hanfodol yn isadeiledd gwastraff nad yw'n cael ei gyllido drwy grantiau Llywodraeth Cymru. Mae £1.445m wedi cael ei ddyrannu yng nghyllideb 2025/26.

## 7. CYFRIF REFENIW TAI

**7.1.** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn gyfrif sydd wedi'i glustnodi o ran gwariant refeniw a chyfalaf. Yn y rhaglen arfaethedig ar gyfer 2025/26, bydd buddsoddiad yn parhau yn y stoc bresennol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus gyda safonau SATC, gyda £13m yn cael ei fuddsoddi.

**7.2.** Mae'r gwaith o adeiladu cyfleuster gofal ychwanegol ym Mhorthaethwy yn mynd rhagddo. Bwriedir gwario £2.276m yn 2025/26.

Mae'r Cyngor yn parhau i adeiladu stoc tai newydd ledled yr Ynys, ac mae nifer o brosiectau wedi'u cynllunio ar gyfer 2025/26. Mae pob prosiect yn ddarostyngedig i asesiad hyfywedd ariannol ac yn cael ei ychwanegu i'r rhaglen dim ond os yw'r asesiad yn gadarnhaol ac os yw'r prosiect wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith yn unol â'r protocol a gytunwyd. O ganlyniad, nid oes unrhyw gynlluniau wedi cael eu cynnwys yn y gyllideb gychwynnol hon, ond bydd cynlluniau yn cael eu cymeradwyo a'u hychwanegu i'r gyllideb yn ystod 2025/26.

**7.3.** Cyfanswm amcangyfrifedig y buddsoddiadau a gynllunir ar gyfer 2025/26 (ac eithrio datblygiadau newydd) yw £28.333m. Bydd y rhaglen yn cael ei chyllido drwy: y gwarged refeniw a gynhyrchir yn 2025/26 (£5.488m), Benthyca Digefnogaeth (£9.155m) a grantiau LlC (£13.69m).

**7.4.** Bydd y rhaglen fuddsoddi tymor hir, yn ogystal â'r ffordd y bydd yn cael ei gyllido dros y 30 mlynedd nesaf, yn cael ei nodi yng nghynllun busnes y Cyfrif Refeniw Tai, fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith maes o law.

**7.5.** Mae £350k wedi cael ei ddyrannu i brynu cerbydau amgen ar gyfer yr Uned Cynnal a Chadw Tai.

## 8. CRYNODEB O'R RHAGLEN GYFALAF A ARGYMHELLIR 2025/26

**8.1.** Mae'r rhaglen gyfalaf argymhellir ar gyfer 2025/26 wedi'i chrynhoi yn Nhabl 3 isod, ac wedi'i dadansoddi mewn mwy o fanylder yn Atodiad 2:-

**Tabl 3**
**Crynodeb o'r Rhaglen Gyfalaf Argymhellir 2025/26**

| | **Cyf** | **£'000** |
|---|---|---|
| Cynlluniau a Ddygwyd Ymlaen o 2024/25 – Cronfa Gyffredinol | Para 4.1 | 6,439 |
| Atgyweirio Asedau / Asedau Amgen | Para 4.2 a 4.3 | 6,304 |
| Diweddaru Systemau Gwresogi gan ddefnyddio'r grant Gwres Carbon Isel | Para 4.2 | 4,463 |
| Cymunedau Dysgu | Para 5 | 152 |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd | Para 6.1 | 330 |
| Caergybi: Trawsnewid yn seiliedidg ar Ddiwylliant a Threftadaeth | Para 6.2 | 4,367 |
| Safleoedd ac Adeiladau Datblygu Economaidd | Para 6.3 | 200 |
| Isadeiledd Gwastraff | Para 6.4 | 1,445 |
| Cyfrif Refeniw Tai | Para 7 | 15,609 |
| **Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf Argymhellir 2025/26** | | **39,309** |
| **Cyllidir gan:** | | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 2,661 |
| Cronfa Gyffredinol - Benthyca â Chefnogaeth | | 3,118 |
| Cymunedau Dysgu – Benthyca Digefnogaeth | | 152 |
| Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | | 500 |
| Arian Wrth Gefn Clustnodedig | | 1,160 |
| Grantiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU | | 14,816 |
| Benthyca Digefnogaeth – Cronfa Gyffredinol | | 1,293 |
| Gwarged Cyfrif Refeniw'r CRT | | 5,488 |
| Grantiau Allanol y CRT | | 3,531 |
| Benthyca Digefnogaeth y CRT | | 6,590 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2025/26** | | **39,309** |

**8.2.** Gwelir bod cyfanswm y rhaglen gyfalaf, fel y gwelir yn Nhabl 3 uchod, £10.323m yn fwy na'r cyllid cyfalaf sydd ar gael, fel y nodir yn Nhabl 1. Bydd hyn yn cael ei gyllido drwy fenthyca digefnogaeth, £1.168m, gan y Gronfa Gyffredinol a £6.590m gan y CRT.

**8.3.** Bydd y benthyca digefnogaeth ychwanegol hwn yn creu gwariant refeniw ychwanegol gan y bydd y ddarpariaeth refeniw isaf (DRI) a chostau llog yn uwch yn 2026/27. Bydd y gost ychwanegol gwirioneddol yn dibynnu ar y gyfradd llog ar adeg y benthyciad a hyd oes yr ased a fydd yn cael ei gyllido â'r benthyciad. Gan fod y Cyngor wedi mabwysiadu dull blwydd-dal ar gyfer cyfrifo'r taliad DRI, mae gwerth y taliad hwn yn cynyddu dros amser, a bydd y cyfanswm a delir i'r cyfrif refeniw yn cyfateb i'r swm a fenthycwyd.

**ATODIAD 2**

## CYLLIDEB CYFALAF ARFAETHEDIG TERFYNOL 2025/26

| Cynllun | Cyllideb<br><br>£'000 | Grantiau Allanol<br><br>£'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol<br>£'000 | Benthyca â Chefnogaeth<br><br>£'000 | Benthyca Digefnogaeth<br><br>£'000 | Gwarged CRT<br><br>£'000 | Arian Wrth Gefn Clustnodedig<br>£'000 | Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynlluniau a ddygwyd ymlaen o 2024/25** | | | | | | | | |
| Adnewyddu Ysgolion | 769 | 193 | | 576 | | | | |
| Disodli Cerbydau | 48 | | | 48 | | | | |
| Disodli Offer TG | 352 | | | 352 | | | | |
| Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus | 270 | | | | | | 270 | |
| Systemau Gwresogi Carbon Isel | 696 | 696 | | | | | | |
| Adfywio Caergybi (THI Cam II) | 291 | 291 | | | | | | |
| Isadeiledd Morwrol ac Ymwelwyr | 190 | | | | | | 190 | |
| Caergybi : Trawsnewid yn seiliedig ar Ddiwylliant a Threftadaeth | 3,426 | 3,426 | | | | | | |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd | 110 | 94 | | 16 | | | | |
| Canolfan Glanhwfa | 287 | 287 | | | | | | |
| **Cyfanswm Cynlluniau ymrwymoedog 2025/26** | **6,439** | **4,987** | **0** | **992** | **0** | **0** | **460** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **Adnewyddu / Disodli Asedau** | | | | | | | | |
| Adnewyddu Adeiladau Ysgolion | 471 | | | 471 | | | | |
| Adnewyddu Toiledau Ysgolion Uwchradd | 345 | | | | | | | 345 |
| Adnewyddu ac Atgyweirio – Swyddfeydd y Cyngor | 125 | | | | 125 | | | |
| Adnewyddu ac Atgyweirio – Canolfan Hamdden Amlwch | 80 | | | 80 | | | | |
| Adnewyddu ac Atgyweirio – Canolfan Hamdden David Hughes | 46 | | | 46 | | | | |
| Atgyweirio Llyfrgell Porthaethwy | 17 | | | 17 | | | | |
| Adnewyddu ac Atgyweirio – Brwynog | 69 | | | 60 | 9 | | | |
| Adnewyddu ac Atgyweirio – Garreglwyd | 514 | | | | 514 | | | |

| Cynllun | Cyllideb<br><br>£’000 | Grantiau Allanol<br><br>£’000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol<br><br>£’000 | Benthyca â Chefnogaeth<br><br>£’000 | Benthyca Digefnogaeth<br><br>£’000 | Gwarged CRT<br><br>£’000 | Arian Wrth Gefn Clustnodedig<br><br>£’000 | Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf<br>£’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnewyddu ac Atgyweirio – Haulfre | 81 | | | 81 | | | | |
| Adnewyddu ac Atgyweirio – Plas Crigyll | 100 | | | 100 | | | | |
| Adnewyddu ac Atgyweirio – Plas Mona | 70 | | | 70 | | | | |
| Adnewyddu ac Atgyweirio – Hen Rheithordy | 35 | | | 35 | | | | |
| Adnewyddu ac Atgyweirio – Gors Felen | 315 | | | | 315 | | | |
| Disodli Cerbydau | 540 | | 140 | 400 | | | | |
| Disodli Offer TG – Cyffredinol | 271 | | 271 | | | | | |
| Disodli Offer TG - Ysgolion | 155 | | | | | | | 155 |
| Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl | 870 | | 870 | | | | | |
| Adnewyddu Canolfan Hamdden Plas Arthur | 500 | | | | | | 500 | |
| Ailwynebu Priffyrdd | 1,700 | | 1,380 | 320 | | | | |
| **Cyfanswm Adnewyddu / Disodli Asedau** | **6,304** | **0** | **2,661** | **1,680** | **963** | **0** | **500** | **500** |
| | | | | | | | | |
| **Rhaglen Cymunedau Dysgu** | | | | | | | | |
| Ysgol y Graig | 152 | | | | 152 | | | |
| **Cyfanswm Rhaglen Cymunedau Dysgu** | **152** | **0** | **0** | **0** | **152** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **Cynlluniau Lliniaru Llifogydd** | | | | | | | | |
| Cynlluniau Lliniaru Llifogydd – Cyllid Cyfatebol | 330 | | | | 330 | | | |
| **Cyfanswm Cynlluniau Lliniaru Llifogydd** | **330** | **0** | **0** | **0** | **330** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **Uwchraddio Systemau Gwresogi i Systemau Carbon Isel** | | | | | | | | |
| Uwchraddio Systemau Gwresogi i Systemau Carbon Isel | 4,463 | 4,017 | | 446 | | | | |
| **Cyfanswm Uwchraddio Systemau Gwresogi i Systemau Carbon Isel** | **4,463** | **4,017** | **0** | **446** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | |

| Cynllun | Cyllideb<br><br>£'000 | Grantiau Allanol<br><br>£'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol<br><br>£'000 | Benthyca â Chefnogaeth<br><br>£'000 | Benthyca Digefnogaeth<br><br>£'000 | Gwarged CRT<br><br>£'000 | Arian Wrth Gefn Clustnodedig<br><br>£'000 | Arian Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Caergybi : Trawsnewid yn seiliedig ar Ddiwylliant a Threftadaeth** | | | | | | | | |
| Caergybi : Trawsnewid yn seiliedig ar Ddiwylliant a Threftadaeth | 4,367 | 4,367 | | | | | | |
| **Cyfanswm Caergybi : Trawsnewid wedi'i ysgogi gan Ddiwylliant a Threftadaeth** | **4,367** | **4,367** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **Safleoedd ac Eiddo Datblygu Economaidd** | | | | | | | | |
| Safleoedd ac Eiddo Datblygu Economaidd | 200 | | | | | | 200 | |
| **Cyfanswm Safleoedd ac Adeiladau Datblygu Economaidd** | **200** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **200** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **Isadeiledd Gwastraff** | | | | | | | | |
| Offer Didoli Ailgylchu Mewnol - Gwalchmai | 733 | 733 | | | | | | |
| Offer Symudol - Penhesgyn | 318 | 318 | | | | | | |
| Gwaith Draenio - Penhesgyn | 314 | 314 | | | | | | |
| Offer Symudol - Gwalchmai | 80 | 80 | | | | | | |
| **Cyfanswm Isadeiledd Gwastraff** | **1,445** | **1,445** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **CYFANSWM CRONFA GYFFREDINOL** | **23,700** | **14,816** | **2,661** | **3,118** | **1,445** | **0** | **1,160** | **500** |
| | | | | | | | | |
| **Cyfrif Refeniw Tai** | | | | | | | | |
| Rhaglen Cynnal a Chadw Cynlluniedig SATC | 12,983 | 2,690 | | | 4,805 | 5,488 | | |
| Cyfleuster Gofal Ychwanegol Porthaethwy | 2,276 | 841 | | | 1,435 | | | |
| Disodli Cerbydau | 350 | | | | 350 | | | |
| **CYFANSWM CYFRIF REFENIW TAI** | **15,609** | **3,531** | **0** | **0** | **6,590** | **5,488** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | |
| **CYFANSWM RHAGLEN CYFALAF 2025/26** | **39,309** | **18,347** | **2,661** | **3,118** | **8,035** | **5,488** | **1,160** | **500** |

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 19/02/2025 |
| **Pwnc:** | Argymhellion grŵp tasg a gorffen y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – Eiddo Gwag a Dyraniadau y Gwasanaethau Tai |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Rhoi diweddariad ar y camau a gymerwyd hyd yma |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Douglas Fowlie |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cynghorydd Robin Williams |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Ned Michael |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**Ebost:** | Llinos Wyn Williams<br>01248 752190<br>Llinoswilliams2@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

**Gofynnir i'r Pwyllgor:**

Teimlir bod angen mwy o amser i weld y canlyniadau yn cael eu cyflawni ar ddangosyddion perfformiad yn dilyn yr adroddiad a wnaed gan y Grŵp Tasg a Gorffen a'r ymyriadau a roddwyd ar waith gan y Gwasanaethau Tai yn dilyn gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen ond byddwn yn gofyn i'r pwyllgor:-

**A1 -** Nodi'r adroddiad hwn fel adroddiad interim ar y cynnydd hyd yma yn dilyn argymhellion gan y Grŵp Tasg a Gorffen ar droad eiddo gwag a diwrnodau a gymerwyd i ail-osod eiddo.

**A2 –** Nodi'r Cynllun Gweithredu Gwella Troad Gwag Eiddo, sydd i'w weld yn Atodiad 2.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

**Tai – Sicrhau bod gan bawb rywle i'w alw'n gartref**

- Rydym wedi ymrwymo o hyd i weithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid, megis cymdeithasau tai cofrestredig, i ymateb i'r heriau tai lleol.
- Byddwn yn dal i gydweithio i adnabod anghenion tai'r ynys fel y gallwn ddarparu ar gyfer yr anghenion hynny a'r daliadaethau angenrheidiol.
- Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein stoc dai drwy ailfodelu eiddo anaddas a gweithio tuag at gwrdd â Safon Ansawdd Tai Cymru II.
- Byddwn yn lleihau'r galw am unedau llety brys drwy ddatblygu mwy o gartrefi parhaol.
- Byddwn yn dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd ledled yr ynys.

| 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]**<br><br>**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:<br>• y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010<br>• y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)<br>• y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg<br>**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]** |

| 4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| 1. Ym mha ffyrdd y bydd y Gwasanaeth Tai yn ymgorffori ac yn gweithredu'r enghreifftiau o arfer orau o'r Rhwydwaith Ansawdd Tai (HQN) sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer y dyddiau ar gyfer dod ag unedau gwag yn ôl i ddefnydd, a sut bydd y strategaethau hyn yn cael eu hintegreiddio i'n prosesau presennol?<br><br>2. Mae'r cynllun gweithredu yn uchelgeisiol, gyda sawl cam gweithredu eisoes wedi'u rhoi ar waith neu wedi'u cwblhau. Pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd yr holl gamau gweithredu sy'n weddill wedi'u cwblhau ar amser, tra hefyd yn bodloni'r gofynion adnoddau ac ariannol angenrheidiol?<br><br>3. Ym mha ffyrdd y bydd y Gwasanaeth Tai yn sicrhau cyfathrebu effeithiol o safbwynt heriau a gwahanol ofynion gyda'r holl ddarpar denantiaid sy'n disgwyl symud i'w cartrefi newydd a rhanddeiliaid eraill wrth symud ymlaen?<br><br>4. O ran y Cynllun Gweithredu, nid oes dyddiadau cwblhau penodol ar gyfer pwynt gweithredu 11 (cyfarfodydd rheoli rheolaidd) a phwynt gweithredu 14 (archwilio prosesau ac amserlen bresennol yn URT). Beth yw'r amserlen ddisgwyliedig arfaethedig ar gyfer cwblhau'r camau hyn? |

| 5 – Cefndir / Cyd-destun |
|---|

**Cefndir y grŵp tasg a gorffen**

Wrth graffu ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a ar 21 Tachwedd 2023, argymhellwyd bod grŵp tasg a gorffen yn cael ei sefydlu i adolygu perfformiad y gwasanaethau tai yn erbyn dangosyddion perfformiad 29 a 30, sy'n ymwneud â thai gwag. Nod yr adolygiad oedd edrych ar y gweithdrefnau presennol a gwneud argymhellion er mwyn gwella'r broses fel y gellir lleihau nifer y dyddiau a gymerir i baratoi eiddo gwag ar gyfer eu gosod.

- **Dangosydd 29 –** Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (*ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod*)– roedd y dangosydd hwn yn goch gyda pherfformiad o 48 diwrnod yn erbyn targed o 40 diwrnod. Roedd hyn yn uwch na'r 30 diwrnod a welwyd yn ystod yr un cyfnod yn 2022/23 a'r 35 diwrnod a welwyd yn 2021/22.
- **Dangosydd 30** – Roedd dangosydd 29 wedi dylanwadu ar ddangosydd 30 ac roedd y cerdyn sgorio'n nodi bod 1.58% o rent wedi'i golli oherwydd bod eiddo wedi bod yn wag.

Yn y misoedd wedi hynny, fe wnaeth y Grŵp Tasg a Gorffen gytuno ar Gylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp a chwrdd â thîm rheolaeth y Gwasanaethau Tai ar sawl achlysur.

Fe wnaeth y grŵp tasg a gorffen ddefnyddio methodoleg yn seiliedig ar dechneg ymchwilio a gwella dulliau sef SREDIM (dethol, cofnodi, archwilio, datblygu, gweithredu a chynnal).

**Aelodau'r Panel:**

Cynghorydd Ieuan Williams, Cadeirydd, Cynghorydd Keith Roberts, Is-gadeirydd, Cynghorydd Geraint ap Bebb, Cynghorydd Sonia Williams, Cynghorydd Arfon Wyn, Cynghorydd Dyfed Wyn Jones.

**Roedd cyfarfodydd y grŵp tasg a gorffen fel a ganlyn;**

- 8 Chwefror 2024, i gytuno ar y Cylch Gorchwyl a thrafod y fethodoleg
- 4 a 6 Mawrth 2024, i holi staff yr adran dai ynglŷn â'r wybodaeth a ddarparwyd
- 19 Mawrth 2024, i gwrdd â staff yr uned cynnal a chadw i ddeall y broses adnewyddu yn well
- 22 Ebrill 224, i drafod y cynnydd hyd yma.

**Trosolwg cyffredinol o weithdrefnau eiddo gwag y Gwasanaethau Tai**

Bob blwyddyn mae'r Gwasanaethau Tai'n derbyn tua 260 o rybuddion eiddo. Y term a ddefnyddir ar gyfer eiddo sydd dan rybudd yw eiddo gwag. Mae paratoi eiddo ar gyfer tenantiaid newydd yn her sylweddol a chostus o fewn y sector tai.

Er bod eiddo gwag yn her, mae hefyd yn rhoi cyfle i archwilio, adnewyddu a gwella effeithlonrwydd yr eiddo yn y tymor hwy. Mae hefyd yn gyfle i sicrhau bod ein cartrefi'n cydymffurfio â'r safonau statudol, yn cynnwys Safon Ansawdd Tai Cymru 2023.

Y targed ar gyfer adnewyddu eiddo yw 50 diwrnod calendr. Mae hyn ar gyfer mân waith atgyweirio, addurno a chwblhau gwiriadau diogelwch a gwaith cynnal a chadw statudol.

Mae goblygiadau sylweddol o ran adnoddau ac arian ynghlwm ag adnewyddu eiddo gwag sydd angen llawer o waith. Mae'r math yma o waith yn cynnwys gwaith atgyweirio sylweddol, gwaith plastro sylweddol, buddsoddiadau cyfalaf megis adnewyddu cydrannau (cegin / ystafell ymolchi / system wresogi newydd ayb), a chwblhau gwiriadau diogelwch a gwaith chynnal a chadw statudol.

Fe all gostio degau o filoedd o bunnoedd i adnewyddu'r math yma o eiddo.

**Mae'n hanfodol bod eiddo gwag yn cael eu rheoli'n effeithiol ac effeithlon er mwyn:**

- Sicrhau cymaint o incwm rhent â phosib
- Lleihau amseroedd aros fel y gall tenantiaid symud i eiddo yn gynt
- Cwrdd â'r galw am dai a chynyddu'r stoc sydd ar gael ar gyfer aelwydydd / ymgeiswyr digartref
- Sicrhau bod ein tai cyngor o ansawdd ac yn ddiogel

**Mae sawl tîm ynghlwm â'r gwaith o baratoi eiddo gwag, yn cynnwys;**

- **Y Tîm Datrysiadau Tai** – sy'n gyfrifol am ddyrannu eiddo drwy'r gofrestr tai. Mae oddeutu 900 o ymgeiswyr ar y gofrestr tai, sy'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â 2019.
- **Yr Uned Cynnal a Chadw Tai (HMU)** – sy'n gyfrifol am archwilio eiddo ar ddiwedd y denantiaeth, cynllunio a chynnal a chadw eiddo gwag a sicrhau eu bod yn bodloni'r Safonau Gofynnol ar gyfer Gosod Eiddo ynghyd â Safon Ansawdd Tai Cymru 2023.
- **Y Tîm Rheoli Ystadau** – sy'n gyfrifol am sefydlu tenantiaethau a darparu ymyraethau a chefnogaeth yn ôl y galw.
- **Y Therapydd Galwedigaethol Tai** – sy'n gyfrifol am gofrestru pob ymgeisydd ag anghenion tai meddygol ac asesu darpar eiddo i wneud yn siŵr y gallant fyw'n annibynnol yn yr eiddo yn yr hirdymor.

**Y prif heriau a aseswyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen ynghyd ag ymateb y Gwasanaethau Tai a'r mesurau lliniaru;**

| Rhif y Risg | Agweddau a aseswyd | Mesurau lliniaru'r gwasanaethau tai |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Y Prif risgiau a nodwyd yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai;**<br><br>1. Dydi'r Uned Cynnal a Chadw Tai erioed wedi cael ei staffio'n llawn.<br>2. Mae heriau parhaus o ran recriwtio peintwyr ac addurnwyr, trydanwyr a pheirianwyr gwresogi.<br>3. Cyflwr gwael rhai eiddo pan maent yn cael eu rhoi'n ôl i'r Cyngor.<br>4. Materion megis gadael sbwriel mewn eiddo, gwaith tir heb ei awdurdodi megis pyllau gardd a thai allan ynghyd â gwaith addurno gwael.<br>5. Gwaith lleihau carbon (*cael gwared ar lefydd tân, bwyleri olew, a gosod systemau gwresogi trydan*).<br>6. Heriau â chwmnïau cyfleustodau ynghylch ynni a mesuryddion.<br>7. Mae'r Uned yn cael trafferth ymdopi â chyfnodau prysur a thawel oherwydd y broses ar gyfer dychwelyd allweddi. Maent yn cael trafferth ymdopi â gweithio ar tua 50 eiddo gwag ar yr un pryd. | 1. Cafodd strwythur yr Uned ei adolygu. Ein man cychwyn oedd datblygu a hysbysebu rôl Goruchwyliwr Eiddo Gwag newydd. Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Gwag, ynghyd â'r Arweinydd Tîm a'r Rheolwr Cynnal a Chadw yn asesu gwaith y gweithlu.<br>2. Mae x 8 prentis wedi cael ei recriwtio yn 2 flynedd ddiwethaf. Bydd x 5 prentis ychwanegol yn cael ei benodi yn ystod 2025-26. Yn ddiweddar rydym wedi mynd allan i dendro ar gyfer ein fframwaith isgontractwyr, sy'n cynnwys 23 lot. Unwaith y bydd y fframwaith yn gyflawn, byddwn yn cyfarfod â chontractwyr i sicrhau eu bod yn cwrdd â gofynion y cytundeb lefel gwasanaeth.<br>3. Bydd archwiliadau diwedd tenantiaeth yn cychwyn ym mis Ebrill 2025. Yn ogystal â hyn, byddwn yn dechrau archwilio 10% o'n heiddo fel rhan o rhaglen fonitro flynyddol.<br>4. Bydd yr archwiliadau uchod yn mynd i'r afael â hyn.<br>5. Bydd hyn yn cael ei gyflawni fel rhan o'n gwaith eiddo gwag ynghyd â SATC2023 a'r rhaglen datgarboneiddio. Mae ein cynllun gweithredu yn ceisio ariannu'r rhaglen hon yn llawn.<br>6. Rydym yn trafod materion â chwmnïau cyfleustodau, ein prif ddarparwr, Energy Angels. Dros y 3 mis diwethaf mae dau eiddo gwag wedi cael ei effeithio gan y mater hwn.<br>7. Mae'r daflen monitro eiddo gwag bellach ar waith a byddwn yn ei defnyddio i fonitro eiddo gwag yn ofalus. Byddwn yn cynnal cyfarfod rhyngadrannol bob wythnos i drafod unrhyw bryderon ynglŷn ag eiddo | |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwag yn unol â'n cynllun gweithredu. |
| 2 | **Risgiau o ran technoleg o fewn y broses eiddo gwag;**<br><br>Aseswyd y system Rheoli Asedau Tai, Accuserve, a daethpwyd i'r casgliad ei bod yn faich gweinyddol sy'n ychwanegu oriau at y broses o baratoi eiddo gwag. | - Ers yr adolygiad eiddo gwag, mae ein swyddogion Systemau Gwybodaeth Tai wedi canolbwyntio ar y pethau sylfaenol ac maent wedi darparu hyfforddiant ar Accuserve a sesiynau datblygu i staff gweithredol. Hyn, ynghyd â recriwtio Swyddog Systemau Gwybodaeth Cynnal a Chadw newydd, a gychwynnodd yn ei swydd ar 6 Ionawr 2025. |
| 3 | **Gofynion addasu gan ein Therapydd Galwedigaethol**<br><br>Pan gynhaliwyd yr adolygiad roedd % o ymgeiswyr a oedd angen addasiadau angen cymorth y Therapydd Galwedigaethol, ac felly bu cynnydd yn nifer y dyddiau a gymerwyd i asesu addasrwydd eiddo ar gyfer anghenion tai tymor hwy yr ymgeisydd. | Ers y grŵp tasg a gorffen, mae'r Gwasanaethau Tai wedi diffinio rôl a chyfrifoldebau ein Therapydd Galwedigaethol Tai. Mae hyn er mwyn sicrhau bod llwyth gwaith y Therapydd Galwedigaethol yn gyraeddadwy ac mae partneriaid, ymgeiswyr a rhanddeiliaid yn llwyr ymwybodol o'r cyfrifoldebau hyn. Mae copi o gylch gwaith y Therapydd Galwedigaethol ar gael yn atodiad 2.<br><br>Erbyn hyn nid oes oedi wrth asesu eiddo posib ar gyfer ymgeiswyr sydd angen addasiadau.<br><br>Rydym yn defnyddio synnwyr cyffredin ac felly os caiff ymgeisydd ei baru ag eiddo gwag addas sydd angen ei addasu ryw fymryn, ni fydd asesiad addasrwydd yn cael ei gwblhau. Mae'r math yma o addasiadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn cynnwys gosod cawodydd mynediad hwylus neu ganllawiau cydio. |
| | 4 | **Adolygu'r Polisi Gosodiadau Sensitif**<br><br>Mae'r Polisi Gosodiadau Tai yn arwain at gynnydd yn nifer y dyddiau y mae eiddo'n wag gan fod yn rhaid cynnal gwiriadau ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr sy'n cael eu hystyried ar gyfer Tyddyn Mostyn, Peibio Close, Ty'n Caeau a Ger y Graig *(sydd wedi'u dynodi'n ardaloedd gosodiadau sensitif ers 2017 oherwydd heriau'n ymwneud ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol)*<br><br>(18.09.2017 – Cymeradwyo'r Polisi Gosodiadau Sensitif gan y Pwyllgor Gwaith) | Mae'r Polisi Gosodiadau Sensitif presennol wedi bod yn weithredol ers 2017. Nid yw'n adlewyrchu rhai o'r cymhlethdodau y mae'r Gwasanaethau Tai yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Nod y polisi presennol yw lleihau'r risg o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd lle'r oedd hyn yn arfer bod yn broblem. Hefyd, roedd y polisi i fod i ddarparu sicrwydd, yn ychwanegol i'r hyn sydd yn y Polisi Dyrannu Cyffredinol, ynglŷn â sicrhau cydbwysedd a chynhwysiant cymdeithasol ar ein hystadau.<br><br>Mae adolygiad mewnol ar y gweill, a bydd fersiwn diwygiedig o'r Polisi Gosodiadau Sensitif yn cael ei drafod yn ystod cyfarfod o'r Uwch Reolwyr ym mis Chwefror 2025.<br><br>Bydd rhaid cymeradwyo'r polisi'n ddemocrataidd. |
| | 5 | **Asesiadau fforddiadwyedd eiddo**<br><br>Rhywfaint o oedi wrth ddyrannu tai pan fydd rhaid cwblhau asesiad ariannol i sicrhau y gall y tenant fforddio'r costau rhentu. | Mae gwiriadau ariannol a diwydrwydd dyladwy cyn tenantiaeth yn hanfodol i sicrhau contractau diogel cynaliadwy a fforddiadwy yn y tymor hwy.<br><br>Mae gofyn i ymgeiswyr ddarparu trosolwg o'u sefyllfa ariannol pan fyddant yn cyflwyno eu cais a phan fyddant yn cael eu hystyried am eiddo.<br><br>**Mae'r broses newydd wedi cael ei chytuno;**<br><br>- Bydd ymgeiswyr sydd mewn gwaith yn cael ei hasesu gan y Tîm Datrysiadau Tai pan fyddant yn dod i frig y rhestr ar gyfer eiddo.<br>- Bydd ymgeiswyr â ffynonellau incwm mwy cymhleth, megis unigolion sy'n cael eu cefnogi gan fudd-daliadau, yn cael eu hasesu gan y Tîm Cynhwysiant Ariannol. |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | **Heriau ag adeiladu newydd a'n hen stoc**<br><br>Cynnydd yn nisgwyliadau rhai tenantiaid sy'n cymharu ein hen stoc dai â'n stoc dai newydd. Rhaid cofio bod cyfran helaeth o'n stoc dai rhwng 80-100 oed. | Mae eiddo gwag yn cael eu haddurno'n llawn ac mae lloriau newydd yn cael ei gosod.<br><br>Mae hyn er mwyn sicrhau bod ein cartrefi o ansawdd pan fyddant yn cael eu gosod yn unol â Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2016, Safon Ansawdd Tai Cymru 2023 a'n safonau gofynnol ar gyfer gosod eiddo.<br><br>Bydd bod amser yn cymryd mwy o amser i baratoi hen eiddo o'i gymharu ag eiddo newydd, yn enwedig os ydi'r tenant wedi byw yn yr eiddo ers degawdau. |
| 7 | **Rheoli Tai**<br><br>- Roedd y tîm Datrysiadau o'r farn bod cadarnhau tenantiaethau dros y ffôn yn ychwanegu at nifer y dyddiau y mae eiddo'n wag<br>- Dim llawer o rybudd pan fydd yr Uned Cynnal a Chadw'n trosglwyddo'r eiddo i'r Tîm Datrysiadau ar gyfer ei osod | Mae modd cadarnhau tenantiaethau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Y nod bob amser yw sicrhau nad yw'r broses effeithio ar nifer y dyddiau y mae eiddo'n wag, a sicrhau bod y tenant yn gallu symud i'w cartref newydd cyn gynted â phosib. Mae gwneud hyn yn rhithiol yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd i denantiaid - er enghraifft fe all rhywun sy'n gweithio'n llawn amser ymrwymo i'r denantiaeth dros y ffôn a llofnodi a dychwelyd y Contract Diogel ar yr un diwrnod ag y maent yn cael y cod i'r allweddi. |
| 8 | **Deddf Rhentu Cartrefi Cymru 2014**<br><br>- Wedi ychwanegu at nifer y dyddiau y mae eiddo'n wag wedi i'r eiddo gael ei ddychwelyd i'r Cyngor yn dilyn marwolaeth y tenant.<br>- Mwy o ofynion cydymffurfio fel rhan o'r broses o gadarnhau tenantiaethau. | Mae'r Ddeddf wedi ychwanegu 4 diwrnod ar gyfartaledd at nifer y dyddiau y mae eiddo'n wag yn dilyn marwolaeth tenant.<br><br>Mae'r gofynion wedi rhoi pwysau ychwanegol ar ein timau eiddo gwag, fodd bynnag mae'r gwaith yn allweddol i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a darparu sicrwydd bod ein cartrefi yn addas i fyw ynddynt. Mae'r erthyglau *Inside Housing* sydd wedi'u hatodi isod yn amlygu'r risgiau'n gysylltiedig â pheidio â chydymffurfio â Deddf Rhentu Cartrefi Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| 9 | **Safon Ansawdd Tai Cymru Standard 2023** | Mae SATC 2023 yn rhaglen gadarnhaol ar gyfer y sector tai cymdeithasol yng Nghymru. Fel yn achos cam un, mae'r Cyngor yn croesawu'r newidiadau a'r gwelliannau i gydymffurfio â cham dau.<br><br>Fodd bynnag, mae goblygiadau ariannol ac o ran adnoddau a byddant yn cael eu hasesu a'u monitro'n barhaus yn unol â'n cynllun busnes ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai.<br><br>**Mae SATC 2023 yn cynnwys yr x 8 gofyniad isod;**<br><br>- Rhaid i gartrefi fod mewn cyflwr da<br>- Rhaid i gartrefi fod yn ddiogel<br>- Ni ddylent gostio llawer i'w gwresogi ac ni ddylai'r dull gwresogi wneud niwed i'r amgylchedd<br>- Rhaid cael cegin fodern<br>- Rhaid cael ystafell ymolchi fodern<br>- Rhaid i'r cartref fod yn gyfforddus ac addas ar gyfer y sawl sy'n byw yno<br>- Rhaid cael gardd os oes modd<br>- Rhaid cael ardal awyr agored braf |

**<u>Ar ben hyn, mae'r camau gweithredu isod wedi cael eu cyflawni yn ogystal;</u>**

- Datblygu dogfen monitro amser real ar gyfer monitro eiddo gwag penodol yn seiliedig ar ddata, fel y gall yr adran weld yr amserlenni ar gyfer paratoi eiddo mewn amser real, ynghyd â'r incwm a gollir ar gyfer pob eiddo.
- Mae'r data yma yn cael ei adolygu yn y cyfarfodydd gweithredol eiddo gwag bob yn ail wythnos lle mae staff gweithredol yn cwrdd i drafod eiddo gwag mewn manylder fel grŵp monitro.
- Recriwtio peintiwr ac addurnwr ychwanegol *(hysbysebwyd y rôl yma bedair gwaith cyn y llwyddom i benodi)* a penodwyd 2 gwmni byddai yn gallu ymgymryd a gwaith ar ein Eiddo Gwag sydd angen gwaith sylweddol.

**<u>Camau gweithredu ar gyfer y dyfodol</u>**

**<u>Cynllun Gweithredu</u>**

- Datblygu dogfen Bolisi Eiddo Gwag ac adolygu'r ddogfen Safonau Gosod.
- Gosod targed realistig am droad eiddo gwag yn 2025/26 o 35 diwrnod.
- Bydd archwiliadau diwedd tenantiaeth yn digwydd rhwng y tîm Rheolaeth a Chynnal a Chadw tai i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a gofynion cyn i'r tenant adael.

- Datblygu arolygon diwedd tenantiaeth i ddeall pam bod y tenant wedi ildio'r denantiaeth. Mae rhai achosion y tu hwnt i'n rheolaeth, megis tenantiaid sy'n marw neu symud i gartref preswyl.
- Recriwtio i rolau cynnal a chadw sy'n anodd eu llenwi a threfnu digwyddiad cwrdd â'r cyflogwr, mewn partneriaeth â Môn CF a'r Adran Gwaith a Phensiynau.
- Dadansoddi eiddo'n fanwl yn unol â'n taenlen monitro eiddo gwag newydd i nodi problemau'n gynt a'u datrys drwy drafod a chynllunio (*er enghraifft, fe all y daenlen newydd ddweud wrthym os oes problem gydag eiddo naill ail oherwydd salwch neu oedi gydag archebion cyfalaf, megis drws ffrynt newydd*).
- Dysgu gan feysydd eraill a'r Rhwydwaith Ansawdd Tai (HQN) drwy ystyried arferion da ac enghreifftiau lle llwyddwyd i leihau nifer y dyddiau oherwydd gwahanol ymyraethau nad ydym yn eu defnyddio ar hyn o bryd.
- Mwy o bwyslais ar golled incwm o fewn yr adran gan mai'r hyn sy'n ein hysgogi ar hyn o bryd yw nifer y dyddiau ar gyfer paratoi'r eiddo gwag. O ran rheoli busnes mae'n hanfodol cael cydbwysedd rhwng monitro'r ddau Ddangosydd Perfformiad a'r incwm a gollir.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** **[gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posib ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posib ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Amherthnasol |
| |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Goblygiadau ariannol yw un o'r prif risgiau yn gysylltiedig ag eiddo gwag yr awdurdod. Yr hiraf y mae eiddo'n wag a'r mwyaf o eiddo sydd ar ein rhestr eiddo gwag, y mwyaf yw'r golled incwm.<br><br>Yn sgil cyflwyno SATC 2023, Deddf Rhentu Cartrefi Cymru a stoc tai sy'n heneiddio ymddengys bod y goblygiadau ariannol yn cynyddu arnom. |

| **8 – Atodiadau:** |
|---|
| **Atodiad un – Adroddiad y Grwp Tasg a Gorffen**<br>**Atodiad dau – Cynllun Gweithredu Arfaethedig** |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| **Dim** |

**Adroddiad ar gasgliadau'r Grŵp Tasg a Gorffen Eiddo Gwag**

1. Cyflwyniad

   Ar ôl edrych ar y Cerdyn Sgorio corfforaethol yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 21 Tachwedd 2023 penderfynwyd sefydlu grŵp tasg a gorffen i adolygu perfformiad Dangosydd 29 - nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) - a oedd yn goch, gyda pherfformiad o 48 diwrnod yn erbyn targed o 40 diwrnod. Roedd y ffigwr hwn uwch na'r 30 diwrnod a gofnodwyd ar gyfer yn un cyfnod yn 2022/23 a'r 35 diwrnod a gofnodwyd yn 2021/22.

   Mae'r dangosydd hwn yn effeithio ar ddangosydd 30, canran y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo'n wag. Roedd y cerdyn sgorio'n nodi bod y rhent a gollwyd yn 1.58%. Gan dybio bod cyfanswm y rhent a gesglir oddeutu £22.5 miliwn mae hyn gyfystyr ag oddeutu £355,500 y flwyddyn. Drwy leihau nifer y dyddiau y mae eiddo'n wag neu osod targed newydd yn seiliedig ar atgyweirio neu adnewyddu eiddo cyn gynted â phosib gallwn leihau'r incwm yr ydym ni'n ei golli.


   Yn y misoedd yn dilyn hyn sefydlwyd grŵp tasg a gorffen a chytunwyd ar gylch gorchwyl ar gyfer y grŵp, gweler Atodiad 1. Penderfynwyd defnyddio methodoleg SREDIM - dewis (y broblem), cofnodi (y broses gyfredol), archwilio (y broses gyfredol), datblygu (proses newydd neu nodi'r broblem), gweithredu (y broses newydd neu'r argymhellion), cynnal (y sefyllfa sydd wedi gwella).

   Cyfarfu'r grŵp yn anffurfiol ddechrau mis Chwefror i benderfynu ar gyfres o gwestiynau er mwyn dechrau ar y gwaith, gweler Atodiad 2. Ar ôl derbyn y cwestiynau gan y grŵp a chyfres o gwestiynau a oedd wedi'u hysgrifennu gan y swyddogion Sgriwtini, aeth staff y gwasanaeth tai ati i baratoi gwybodaeth fanwl i helpu'r grŵp ddeall y broses o osod tai'r awdurdod lleol. Gweler Atodiad 3 a 4. Cawsom hefyd gopi o'r ddogfen Safonau Gosod – Atodiad 5, a'r cytundeb/contract tenantiaeth newydd – Atodiad 6.

   Yn dilyn hyn cyfarfu'r grŵp ar 5 achlysur:

   8 Chwefror - i gytuno ar y Cylch Gorchwyl a thrafod y fethodoleg
   4 a 6 Mawrth - i gwrdd â staff yr Adran Dai i'w holi ynglŷn â'r wybodaeth a ddarparwyd.
   19 Mawrth – i gwrdd â'r Uned Cynnal a Chadw i ddeall y broses atgyweirio yn well.
   22 Ebrill – i drafod y cynnydd hyd yma.

2. Cofnod – dogfennu'r broses o osod eiddo.
   Mae'r siartiau llif isod yn nodi'r broses a ddilynir gan y Tîm Datrysiadau a'r Uned Cynnal a Chadw tai.


VOIDS PROCESS – ALLOCATIONS PERIOD
NTQ/EOT
NEW TENANCY
SOLUTIONS
HMU
Notice to Quit (NTQ) received from customer
Acknowledgement letter sent to customer
VOID process completed on Orchard, email sent to VOIDS group & Energy Angels informed
Death notification given to Solutions (NTQ)
Attempt to contact next of kin by phone & acknowledgement letter sent
Keys received by Cyswllt Mon or O'Toole Centre
Notification of Abandonment / Eviction received from HMO
Update Orchard with EOT & send email to EOT group
Keys issued to HMU
List compiled
Pre-tenancy checks carried out e.g. OT, TC, FIO until reach suitable applicant
Offer made
Offer accepted
Offer rejected
Refusal processed on Orchard & reasons recorded
HMO advised of sign up
Sign up completed by HMO at agreed date. Tenancy commences & Orchard updated
Notified of handover date & keysafe number
3 Day Process – Lock change, key safe & landlord safety checks
Inspection – input clearance
Commence VOIDS process: Designated as 3/8/13/18 or major works property
Works completed within time scales
Handover completed; Solutions / HMOs emailed with relevant paperwork / keysafe number

Y broses a ddilynir gan yr Uned Cynnal a Chadw Tai

Y 3 diwrnod cyntaf

1. Y Tîm Gosod yn anfon ebost i ddweud y bydd y goriadau ar gael y diwrnod canlynol.

2.Nodi'r goriadau ar y daenlen eiddo gwag.

Amserlenwyr i ddechrau ar y broses drwy gofnodi'r gwaith. Newid cod y cwpwrdd goriadau, newid y cloeau a chwblhau gwiriadau nwy a thrydan a chael tystysgrifau cyn pen 3 diwrnod.

3. Ar y 3ydd diwrnod (neu cyn hynny) cwblhau archwiliad technegol cynhwysfawr o'r eiddo i weld faint o waith sydd ei angen fesul ystafell, asesu'r sefyllfa o ran asbestos a nodi'r gost neu'r tâl y gellir ei ailgodi am glirio'r eiddo, ynghyd â mesur pob ystafell.

Ar ôl y 3 diwrnod cyntaf

4. Ar ôl cwblhau'r archwiliad technegol, bydd yr archwiliwr yn:

Uwchlwytho'r holl luniau i Accuserve.

Ar ôl darllen y mesuryddion dylid cofnodi'r wybodaeth ar Energy Angles i glirio unrhyw ddyledion a hawlio unrhyw gredyd.

Creu adroddiad technegol cynhwysfawr sy'n cynnwys gwybodaeth am yr holl waith angenrheidiol – clirio, sgipiau, manylion ac archebion, cadarnhau a oes asbestos yn yr eiddo, gwirio oed y gegin, ystafell ymolchi a'r bwyler yn unol â WHQS, nodi unrhyw waith cyfalaf, craffu ar y polisi lleithder a llwydni, ac yna cwblhau arolwg lleithder ac anwedd os oes angen.

5. Ar y bwrdd gwaith:

Defnyddio'r porth Energy Angles i gofrestru'r pŵer ac unrhyw gyfleustodau yn enw CSYM, fel y gellir adfer y pŵer er mwyn dechrau ar y gwaith.

Trefnu archwiliad o'r gegin gan un o'n cyflenwyr os oes angen cegin newydd.

Nodi'r manylion ar y siart gantt i greu amserlen amcangyfrifiedig.

Cofnodi'r digwyddiadau ar y system Accuserve i gyd-fynd â'r siart gantt o dan y codau archebu cywir (CT a CA), fe all hyn gynnwys cofnodi 50+ o ddigwyddiadau unigol.

Ychwanegu unrhyw asesiadau risg, adroddiad asbestos a marciwr UDC i'r adroddiad technegol cynhwysfawr.

Cysylltu â'r storfa i archebu'r deunyddiau, sgipiau a sgaffaldau ac ati ar gyfer y gwaith a threfnu iddynt gael eu danfon i'r safle.

6. Y Gwaith:

Monitro cynnydd a chwblhau unrhyw waith ychwanegol os oes angen.

Cofnodi unrhyw waith ychwanegol ar Accuserve a thrafod hynny gyda'r amserlenwyr a goruchwylwyr y gwaith.

Cadarnhau bod yr eiddo'n barod i gael ei baentio/bapuro ac archebu deunyddiau.

Cadarnhau bod yr eiddo yn barod i'w garpedu ac archebu carpedi.

7. Cynnal gwiriad 48 awr cyn trosglwyddo i sicrhau y gellir cwblhau'r gwaith ar amser, trefnu gwaith munud olaf os oes angen

→

8. Creu ffolder cyn trosglwyddo'r eiddo, sy'n cynnwys yr isod:

Adroddiad technegol cynhwysfawr

Tystysgrif tanwydd

Tystysgrif legionella

Tystysgrif EPC

Taflen cydymffurfio â WHQS

Llenyddiaeth lleithder a llwydni

Sicrhau bod digon o bŵer yn y mesurydd i ailgomisiynu'r eiddo.

→

9. Cwblhau trosglwyddiad technegol, sicrhau bod y ffeil trosglwyddo yn cael ei gadael yn yr eiddo.

Sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei sganio a'i anfon at y Tîm Datrysiadau.

Rhoi'r goriadau yn y cwpwrdd goriadau, sicrhau bod yr eiddo wedi'i gloi.

3. Archwilio – dadansoddi’r broses

Mae’r Tîm Datrysiadau wedi dod o hyd i 6 maes sy’n peri problem, gweler Atodiad 3 i gael y manylion:

1. Unedau llety lle mae therapydd galwedigaethol yn gysylltiedig â hwy.
2. Eiddo sensitif i’w gosod.
3. Trosglwyddiadau byr rybudd gan yr Uned Cynnal a Chadw Tai.
4. Unedau llety lle mae angen asesiad cynhwysiant ariannol.
5. Derbyn y goriadau gan yr Uned Cynnal a Chadw Tai.
6. Arwyddo cytundebau dros y ffôn.

Mae’r rhan nesaf yn nodi’r datrysiadau sy’n cael eu cynnig gan y Tîm Datrysiadau.

Mae’r Uned Cynnal a Chadw Tai yn nodi 14 maes sy’n dylanwadu ar gymhlethdodau’r broses adnewyddu:

1. Cafodd y targedau ar gyfer eiddo gwag eu gosod cyn i dargedau Rhentu Cartrefi Cymru (RHW), Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS), Lleithder a Llwydni a thargedau eraill gael eu gosod gan Lywodraeth Cymru, ac nid ydynt wedi cael eu diwygio i ystyried y gwaith ychwanegol o ganlyniad i’r deddfwriaethau newydd.
2. Disgwyliadau tenantiaid, o ganlyniad i gymharu ein heiddo ag eiddo newydd, o gofio bod mwyafrif ein stoc rhwng 80 - 100 oed.
3. Y nifer uchel o dai sy'n cael eu dychwelyd mewn cyflwr gwael.
4. Prinder gweithwyr/contractwyr a goruchwylwyr i gefnogi meysydd eraill megis gwaith cynnal a chadw ymatebol, yr amserlenni tynn ar gyfer cwblhau gwaith cynnal a chadw blaenoriaeth a rheoli gwyliau ac absenoldebau staff. Mae’r ffaith bod ymweliadau bellach drwy apwyntiad yn unig yn gwneud pethau’n waeth.
5. Mae’r Uned Cynnal a Chadw Tai yn cael trafferth addasu i gyfnodau prysur a thawelach oherwydd y modd y mae goriadau’n dod i mewn. Maent yn cael trafferth rheoli oddeutu 50 eiddo gwag ar yr un pryd.
6. Clirio eiddo, pan fydd tenantiaid yn gadael sbwriel a hen ddodrefn yn yr eiddo.
7. Erbyn hyn mae’n rhaid i’n heiddo gael eu hadnewyddu yn hytrach na chyrraedd yr isafswm ar gyfer eu gosod.
8. Delio â gerddi a ffensys, pan fydd tenantiaid wedi codi siediau a ffensys ayb, sydd angen eu tynnu, eu diogelu neu eu adfer ar gyfer y tenantiaid newydd.
9. Pryderon TG, fe all gymryd amser i reoli eiddo gwag ar Accuserve.
10. Cwrdd â safonau Llywodraeth Cymru. Cyn Covid roedd 20% o’r unedau angen gwaith sylweddol ar gyfartaledd. Erbyn hyn, mae 80% angen gwaith sylweddol gan fod rhaid gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi wrth i ni baratoi ar gyfer WHQS2.

11. Mae’n bosib y bydd pob un angen gwaith sylweddol yn fuan, a bydd rhaid paentio/papuro a gosod carpedi/lloriau newydd ym mhob eiddo o leiaf yn sgil WHQS 2023.
12. Safonau newydd deddf Rhentu Cartrefi Cymru (papuro/paentio, gosod lloriau/carpedi a larymau mwg ychwanegol), gwaith Cyfalaf (drysau ffrynt a chefn, systemau gwresogi E7, cyfnewid bwyleri) a Lleithder a Llwydni (systemau awyru mewnbwn positif (PIV) a ffaniau lleithder) – gwaith sy’n rhaid ei gwblha tra bo’r eiddo’n wag.
13. Cwblhau gwaith lleihau carbon (cael gwared ar lefydd tân a bwyleri olew a gosod systemau gwresogi trydan).
14. Trafferthion â chwmnïau cyfleustodau yn gysylltiedig â phŵer a mesuryddion.

Trafodwyd y materion hyn yn ystod y cyfarfod â’r Uned Cynnal a Chadw Tai ar 19 Mawrth ac maent yn cael sylw yn y rhan nesaf.

4. Datblygu – datrysiadau posib i’r problemau a nodwyd.

Mae’r Tîm Datrysiadau wedi meddwl am ddatrysiad i’r 6 maes a nodwyd. Maent yn cynnwys:

1. Cyfyngu nifer y cyfeiriadu Therapydd Galwedigaethol i 2 eiddo, fel y gall y Tîm Datrysiadau edrych ar restrau eraill pe byddai’r ymgeisydd yn cyrraedd brig y rhestr ar gyfer eiddo arall.
   Pennu dyddiad ar gyfer derbyn adborth gan y Therapydd Galwedigaethol os ydi’r goriadau ym meddiant yr Uned Cynnal a Chadw Tai - e.e. cyn pen 5 diwrnod gwaith. Os na fydd unrhyw adborth yn dod i law bydd y swyddog datrysiadau’n parhau â’r rhestr.
   Bydd y Tîm Datrysiadau yn anwybyddu’r cyfeiriad i’r Therapydd Galwedigaethol os ydi’r eiddo’n fyngalo ac os mai dim ond LAS sydd ei angen - yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth rheolwyr.

2. Adolygu’r polisi a’r broses ar gyfer gosod eiddo sensitif. Trefnu cyfarfod 30 munud gyda’r Swyddog Rheoli Tai / Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i drafod ymgeiswyr yn hytrach nag anfon e-bost ac aros 5 diwrnod am ateb.

3. Derbyn e-byst trosglwyddo yn gynt i fel y gall y Tîm Datrysiadau ddod o hyd i denant cyn gynted â phosib, ond egluro wrth y cwsmer ei bod hi’n bosib y bydd oedi wrth drosglwyddo’r eiddo. Egluro bod hynny oherwydd bod yn rhaid carpedu a phapuro/paentio’r eiddo cyn y cânt symud i’r eiddo. Fodd bynnag, os caiff y cytundeb ei gwblhau o bell (h.y. dros y ffôn) yna bydd yn golygu rhoi rhif y cwpwrdd goriadau iddynt unwaith y bydd y trosglwyddiad wedi’i gwblhau. Bydd hyn yn digwydd dim ond os caiff y cytundeb ei arwyddo dros y ffôn ac nid wyneb yn wyneb.

4. Bydd y tîm datrysiadau a’r arweinydd tîm Cynhwysiant Ariannol yn adolygu eu capasiti pob 2 fis ac os oes modd iddynt gwblhau’r asesiad cynhwysiant ariannol er mwyn arbed amser byddant yn gwneud hynny. Os ddim, bydd y Tîm Datrysiadau yn parhau i asesu fforddiadwyedd ymgeiswyr sy’n gweithio’n llawn amser ac sydd ddim yn derbyn unrhyw fudd-daliadau/credyd cynhwysol, fodd bynnag bydd rhaid atgoffa’r gwasanaeth gofal cwsmer i annog ymgeiswyr i gwblhau’r ffurflen Incwm a Gwariant wrth gwblhau’r ffurflen gais.

5. Staff yr Uned Cynnal a Chadw Tai i fynd yn ôl i’r arfer o nôl goriadau o’r swyddfa yn Llangefni pan maent yn pasio yn ystod y dydd.

6. Cynnig cyfle i ymgeiswyr arwyddo cytundebau dros y ffôn, fodd bynnag nid hwn fydd yr opsiwn diofyn a dylid cynnig iddynt wneud hynny wyneb yn wyneb a chael y goriadau’r un diwrnod. Os ydynt yn dewis gwneud hynny wyneb yn wyneb bydd y Swyddog Datrysiadau’n anfon copi o’r contract meddiannaeth atynt dros e-bost ymlaen llaw er mwyn arbed amser yn ystod yr apwyntiad.

Cafodd rhai o’r pwyntiau a godwyd gan yr Uned Cynnal a Chadw Tai eu trafod yn ystod y cyfarfod ar 19 Mawrth. Nid yw Accuserve yn achosi problemau ond nodwyd yr amser a gymerir i gofnodi pob darn o waith yn fanwl. Mae’r wybodaeth ychwanegol o fudd pan mae’n rhaid i’r Cyngor dystiolaethu ei fod yn cydymffurfio â’r gofynion ychwanegol.

Y prif fater yw adnoddau. Rhannodd rheolwr yr Uned Cynnal a Chadw Tai y siart gantt/daenlen ar gyfer yr eiddo gwag a oedd yn amlygu’r broblem. Ar 19 Mawrth roedd 46 eiddo gwag ar y system gyda 31 o’r rhain (67%) angen gwaith sylweddol. Roedd y siart gantt yn ymdrin â chyfnod o 12 diwrnod. Pe byddem yn lluosi’r dyddiau hynny â’r 46 eiddo yn y system byddai gennym 552 diwrnod lle gallem fod yn gweithio ar yr holl eiddo pe byddai gennym ddigon o weithwyr. Roedd gennym adnoddau ar gyfer 201 diwrnod, sy’n golygu bod gennym 351 diwrnod heb neb yn gweithio ar yr eiddo, 64% o ddyddiau anghynhyrchiol.

Rhannodd rheolwr yr Uned Cynnal a Chadw Tai ddiweddariad ar y siart gantt yn gynnar ym mis Mai. Roedd nifer yr eiddo gwag wedi cynyddu i 59. Roedd 37 (63%) angen gwaith sylweddol. Roedd y siart gantt yn ymdrin â chyfnod o 19 diwrnod, rhwng y 3ydd o Fai a’r 31ain o Fai. Mae 59 eiddo gwag dros 19 diwrnod gyfystyr â 1121 diwrnod. Nid oedd gennym adnoddau ar gyfer 766 o’r rhain, ac felly roedd canran y dyddiau anghynhyrchiol wedi cynyddu i 68%.

Mae oddeutu 200 eiddo yn dod yn wag bob blwyddyn ac mae’r niferoedd yn amrywio o 6 y mis ym mis Gorffennaf ac Awst 2023 i 26 y mis ym mis Ebrill 2024.

Mae Rheolwr yr Uned Cynnal a Chadw Tai o'r farn y gallem adnewyddu tai sydd angen gwaith sylweddol mewn 25 diwrnod pe byddai gennym yr adnoddau.

Yr ateb syml yw cyflogi mwy o grefftwyr. Mae gan yr Uned Cynnal a Chadw tai ddau dîm sy'n gweithio ar eiddo gwag ar hyn o bryd. Mae'r timau hyn yn cynnwys 2 drydanwr, 2 blymwr, 2 saer, 2 blastrwr a 2 labrwr. Caiff crefftwyr allanol eu cyflogi yn ogystal i gwblhau gwaith megis gosod ceginau. Yn aml iawn mae'n rhaid i'r timau Eiddo Gwag gwblhau gwaith cynnal a chadw dydd i ddydd pan fydd staff ar wyliau neu yn sâl. Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai wedi gweithredu'n fewnol ers 2015 ac nid yw erioed wedi cael ei staffio'n llawn.

Ar ôl trafod â'r Pennaeth Gwasanaeth a'r Swyddog Adran 151 mae'r Grŵp Tasg a Gorffen yn argymell:

1. Bod targed lleol o 35 diwrnod calendr yn cael ei bennu ar gyfer Dangosydd Perfformiad Allweddol 29 - ailosod unedau llety y mae modd eu gosod (ac eithrio eiddo anodd eu gosod).

2 Bod y Gwasanaeth Tai'n paratoi cynllun gweithredu wedi'i gostio ar gyfer lleihau nifer y dyddiau a gymerir i ailosod unedau llety o'r perfformiad presennol i 35 diwrnod calendr. Fe ddylai'r cynllun gynnwys camau i leihau'r cyfnodau anghynhyrchiol yn y broses ailosod (Uned Cynnal a Chadw Tai).

3 Bod y Gwasanaeth Tai'n paratoi cynllun gweithredu wedi'i gostio i sicrhau bod ganddo adnoddau digonol i gwblhau gwaith ar 4 uned yr wythnos ar gyfartaledd ac i sicrhau bod unedau'n cael eu hailosod yn unol â'r targed diwygiedig.

4 Bod y Gwasanaeth Tai'n edrych ar brosesau ac amserlenni'r Uned Cynnal a Chadw Tai er mwyn lleihau'r amser sy'n cael ei golli ar hyn o bryd.

Dylid ystyried y Cynllun Rheoli Asedau Tai newydd i gyrraedd gofynion Safon Ansawdd Tai Cymru yng nghyswllt eiddo gwag. Pe byddai uchafswm eiddo gwag yn cael ei bennu a'r gyfer cyfnod penodol a ddylid defnyddio cwmni allanol i ddod â'r niferoedd i lawr?

5. Gweithredu a chynnal

Dylid rhoi awgrymiadau'r Tîm Datrysiadau ar waith cyn gynted â phosibl.

Bydd cynllun busnes cynhwysfawr a manwl yn cael ei ddatblygu erbyn mis Rhagfyr er mwyn mynd i'r afael â 1 i 4 uchod. Bydd y cynllun yn cael ei roi ar waith yn ystod y chwe mis yn dilyn hynny a bydd y targed o 35 diwrnod yn dod yn weithredol ym mis Ebrill 2025.

6. Gwersi a ddysgwyd

   Er bod y prosiect tasg a gorffen wedi bod yn brofiad gwerthfawr, dylid cwestiynu ai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o archwilio perfformiad? Mae'r pwyllgor wedi'i gyfyngu i ambell gyfarfod ac nid yw eisiau bod yn draul ar amser swyddogion sy'n gweithio mewn meysydd sensitif. Mae gan yr Awdurdod adain Trawsnewid ac fe allai'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Gwaith ystyried eu hyfforddi mewn technegau i wella prosesau busnes. Efallai y dylid ystyried y gwaith hwnnw'n waith arferol a gwerthfawr os yw'n sicrhau gwelliannau ac arbedion effeithlonrwydd. Byddai hyn gyfystyr â gwneud y Cyngor yn Awdurdod Dysgu fel yr awgrymwyd ym maes Addysg rai blynyddoedd yn ôl.

7. Sylwadau cyffredinol a diolchiadau

   Roedd y Grŵp Tasg a Gorffen yn cydnabod bod perfformiad yr Adran Dai ymysg y gorau yng ngogledd Cymru a bod pob Awdurdod a Chymdeithas Dai'n wynebu'r un heriau o ran ailosod eiddo gwag.

   Rydym yn wynebu cyfnod digynsail ym maes tai. Mae 700 o bobl ar y rhestr aros ac mae landlordiaid preifat yn penderfynu gadael y farchnad dai. Drwy wella'n perfformiad gallwn helpu i leihau'r rhestr aros yn gynt.

   Hoffai'r grŵp ddiolch i staff yr Adran Dai am eu hamser ac am ateb ein cwestiynau a darparu'r holl ddogfennau yr oedd arnom eu hangen.

| **Gweithred** Rhif | **Gweithred** | Swyddog Arwain | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|
| 1 | Datblygu Polisi Rheoli Foidiau sy'n cwmpasu Deddf Rhentu Cartrefi Cymru, SATC2023 a Safon Gosod Lleiaf y Cyngor | Llinos Williams | Ebrill 2025 |
| 2 | Adolygu'r Polisi Gosod Sensitif i sicrhau ei fod yn cyflawni'r canlyniadau gofynnol ac yn cael yr effaith leiaf ar ddiwrnodau troi gwag â phosibl | Llinos Williams<br>Dewi Parry | Mawrth 2025 |
| 3 | Datblygu'r gronfa ddata monitro gwag byw / amser real ar gyfer monitro parhaus | Darren Gerrard | Ionawr 2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Datblygu'r grŵp monitro foidiau gweithredol | Darren Gerrard | Ionawr 2025 |
| 5 | Gweithdy gyda'r holl staff sy'n ymwneud â foidiau a throi o gwmpas unedau gwag unwaith y bydd y polisi yn ei le | Ned Michael<br>Llinos Williams<br>Dafydd Rowlands | Ebrill 2025 |
| 6 | Adolygu capasiti'r gweithlu cynnal a chadw, gan sicrhau bod perfformiad yn gyson uchel. Ystyried achosion busnes ar fuddsoddi i arbed is-gontractio yn erbyn recriwtio rhagor o staff ein hunain. | Dafydd Rowlands | Parhaus yn cychwyn Ionawr 2025 |
| 7 | Datblygu gweithdrefnau gweithredol fel rhan o'r Polisi Foidiau ehangach | Tîm Datrysiadau a Tim Chynnal a Chadw | Mehefin 2025 (yn dilyn cymeradwyaeth y Polisi Rheoli Foidiau) |
| 8 | Ffurflen gais am eiddo fynd ar lein trwy’r CRM | Llinos Williams | Mehefin 2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 | Gweithdy Aelodau Etholedig ar bolisi, gweithdrefnau a sut orau y gallent gefnogi gyda lleihau'r galw ar swyddogion (er enghraifft, cyswllt parhaus gan ymgeiswyr tai) | Llinos Williams<br>Dewi Parry | Haf 2025 |
| 10 | Costio allan SATC2023 a datgarboneiddio mewn perthynas â foidiau am y 10 mlynedd nesaf | Dafydd Rowlands | |
| 11 | Cyfarfodydd Rheoli rheolaidd ynghylch eiddo sy'n dod yn bryder (h.y. maent yn mynd i fod allan o'r targed) – cytuno ar gynllun gweithredu penodol i eiddo) | Hefin Thomas<br>Llinos Williams<br>Dewi Meredith<br>Dafydd Rowlands | |
| 12 | Dechrau arolygiadau diwedd tenantiaeth – hysbysu tenantiaid sy'n gadael o'u gofynion diwedd tenantiaeth a'n polisi ailgodi tâl | Cartrefi Cymunedol<br>Gwasanaethau technegol | Ebrill 2025 |
| 13 | Datblygu arolwg diwedd tenantiaeth er mwyn deall pam mae tenantiaid yn bwriadu symud ymlaen o'u cartrefi | Llinos Williams<br>Dewi Parry<br>Karen Roberts | Ebrill 2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 14 | Archwilio prosesau ac amserlenni cyfredol yn yr Uned Cynnal a Chadw Tai er mwyn lleihau'r lefel bresennol o amser anghynhyrchiol a gollwyd. | Hefin Thomas<br>Dafydd Rowlands<br>Darren Gerrard | |
| 15 | Adolygu dangosydd perfformiad ar gyfer 2025-26 yn seiliedig ar ragolygon wedi'u costio ar gwblhau o leiaf 4 eiddo gwag yr wythnos. Mae'r grŵp Gorchwyl a Gorffen yn argymell x 35 diwrnod. | Tim Rheoli Tai | Chwefror 2025 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **19 Chwefror, 2025** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2024/25** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Douglas Fowlie** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2024/25

**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1. Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

**2. Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2024/25 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 15 Ionawr, 2025

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2024/25 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

# RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2024 → EBRILL, 2025
**[Fersiwn dyddiedig 13/02/25]**

## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd
Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2024 (21/05/24)** | **Mai, 2024 (21/05/24)** |
| Ethol Cadeirydd: 2024/25 | Ethol Cadeirydd: 2024/25 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2024/25 | Ethol Is-gadeirydd: 2024/25 |
| | |
| **Mehefin, 2024 (13/06/24) – Ch4** | **Mehefin, 2024 (19/06/24) – Addysg / Y Gymraeg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2023/24 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2023/24<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2023/24 → Mesur Cynnydd |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2024/25 | Enwebu Aelod Pwyllgor ar y Panel Sgriwtini Cyllid |
| Hunan Asesiad Corfforaethol Drafft 2024 | |
| Adolygiad Sgriwtini o Ddangosydd Perfformiad 29: Gosod Tai'r Cyngor – adroddiad terfynol | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2023/24 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Dim cyfarfod wedi'i raglennu** | **Gorffennaf, 2024 (10/07/24) - Gwasanaethau Brys** |
| | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn: 2023/24 |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Medi, 2024 (17/09/24) – Ch1** | **Medi, 2024 (12/09/24) - Taclo Tlodi** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2024/25 | Cyngor ar Bopeth Ynys Môn |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2023/24 | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Hydref, 2024 (16/10/24)** | **Hydref, 2024 (15/10/24) – Addysg a Datblygu Cymunedol Cynaliadwy** |
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2023/24 | Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2023/24 |
| Arolygiaeth Gofal Cymru: Llythyr Gwiriad Gwella Gwasanaethau Oedolion a'r Cynllun Gweithredu | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Enwebu Aelodau Pwyllgor ar y Panelau Sgriwtini Cyllid ac Addysg | Menter Môn |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Uchelgais Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2023/24<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2024/25 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| | **Tachwedd, 2024 (13/11/24) - Iechyd** |
| | Archwilio Cymru: Adroddiad Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | |
| | |
| **Tachwedd, 2024 (19/11/24) - Ch2** | **Tachwedd, 2024 (20/11/24) – Trosedd ac Anhrefn** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2024/25 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2023/24 |
| Cynllun Strategol Môn Actif | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| Asesiad y Farchnad Dai Leol 2024 | Cynllun Strategol Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion |
| Cynllun Strategol Caffael a Rheolau Gweithdrefn Contractau Newydd | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Ionawr, 2025 (15/01/25) – Cyllideb 2025/26 (bore)** | **Ionawr, 2025 (14/01/25)** |
| Sefydlu Cyllideb 2025/26 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Medrwn Môn |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Ionawr, 2025 (15/01/25) (prynhawn)** | |
| Hunan-Asesiad Corfforaethol – diweddariad 6 mis ar gynnydd | |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2023/24 | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2:2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | |
| | |
| **Chwefror, 2025 (19/02/25) – Cyllideb 2025/26** | **Chwefror, 2025 (12/02/25) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2025/26 – refeniw a chyfalaf | Polisi Iaith Gymraeg Ddiwygiedig |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn |
| Argymhellion Grŵp Tasg a Gorffen Sgriwtini: Gosod Tai'r Cyngor – diweddariad ar gynnydd | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Mawrth, 2025 (11/03/25) - Ch3** | **Mawrth, 2025 (12/03/25)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2024/25 | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2023/24 |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2025/2055 | Y Gronfa Ffyniant Gyffredin |
| Cynllun Strategol Rheoli Risg Llifogydd | Cynllun Ynni Ardal Leol |
| | Enwebu Aelod Pwyllgor ar y Panel Sgriwtini Cyllid |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch3:2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Ebrill, 2025 (10/04/25)** | **Ebrill, 2025 (09/04/25)** |
| Arolygiaeth Gofal Cymru: Llythyr Gwiriad Gwella Gwasanaethau Oedolion a'r Cynllun Gweithredu – Adroddiad Cynnydd | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru | Porthladd Rhydd Ynys Môn – mesur cynnydd |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |

**Eitemau i’w rhaglennu**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
|---|---|
| Cyfrifiad 2021 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru / Heddlu Gogledd Cymru |
| Rhaglen Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Chryfhau’r Gymraeg | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2024-2034– Ystad Mân-ddaliadau | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Adroddiad Cynnydd Ch4:2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | Craffu ar Bartneriaethau |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Cynllun Strategol Chwarae | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2024/25 (Mehefin 2025) |
| Cynllun Strategol Pobl | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2024/25 (Mehefin-Gorffennaf, 2025) |
| Cynllun Strategol Digidol Ysgolion | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/2023) |
| | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn (cytundeb cyflawn) |
| | Craffu Partneriaethau – adolygiad blynyddol (Mawrth 2026) |
| | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd (Mehefin, 2025) |
| | Cynllun Strategol Tuag at Sero Net (2025/26) |
| | Archwilio Cymru: Llif allan o’r Ysbyty → mesur cynnydd (Mehefin, 2026) (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 13/11/2024) |
| | Ffordd Newydd o Weithio yn y Gwasanaeth Dysgu yn dilyn terfynu GwE |